Ariannwyd gan y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd

Dysgu yn y sector Gwirfoddol a Chymunedol:

Ymchwil ac adolygiad o'r ddarpariaeth dysgu Oedolion ac yn y Gymuned yn y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ran:

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

Rhestr Cynnwys

Rhestr Ffigurau tudalen 3

Diolchiadau tudalen 4

Crynodeb Gweithredol tudalen 5

1.0 Rhesymeg a methodoleg yr ymchwil

1.1 Rhesymeg tudalen 8
1.2 Methodoleg tudalen 8
1.3 Ynghylch PAVS a'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro tudalen 10
1.4 Data ystadegol a phroffeil o'r mudiadau gymerodd rhan tudalen 11

2.0 Y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel darparwr hyfforddi

2.1 Mapio'r ddarpariaeth tudalen 12
2.1.1 Meysydd pwnc tudalen 14
2.1.2 Amseru tudalen 14
2.1.3 Costau ac Ariannu tudalen 15
2.1.4 Lleoliadau tudalen 16
2.1.5 Hyfforddwyr tudalen 17
2.1.6 Mynediad tudalen 19
2.2 Hyrwyddo cyfleoedd dysgu tudalen 20
2.3 Hyfforddiant achrededig tudalen 20
2.4 Dulliau darparu hyfforddiant tudalen 21
2.5 Darpariaeth a gynlluniwyd wnaeth ddim digwydd tudalen 21
2.6 Cynllunio darpariaeth hyfforddi tudalen 21
2.7 Newidiadau sylweddol arfaethedig i'r ddarpariaeth tudalen 23
2.8 Casgliadau am y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel darparwr hyfforddi tudalen 26

3.0 Y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel cyfranogwr mewn darpariaeth DOG

3.1 Bylchau mewn darpariaeth tudalen 28
3.2 Meysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddi presennol ac yn y dyfodol tudalen 29
3.3 Cyrchu cyfleoedd hyfforddi y tu allan i Sir Benfro tudalen 30
3.4 Casgliadau am y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel cyfranogwr mewn darpariaeth DOG tudalen 31

4.0 Adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr

4.1 Adnabod anghenion hyfforddi tudalen 33
4.2 Ystyriaeth o sut mae dysgwyr yn dysgu orau tudalen 34
4.3 Rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr tudalen 35
4.4 Casgliadau am adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr tudalen 36

5.0 Adnabod a pheilota dulliau newydd o ddarparu tudalen 37

5.1 *Learning for Living* tudalen 38
5.2 Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's tudalen 40
5.3 Porth Addysg Sir Benfro tudalen 42
5.4 Casgliadau am adnabod a pheilota dulliau newydd o ddarparu tudalen 44

6.0 Rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro tudalen 45

6.1 Canlyniadau o sesiwn grŵp ffocws TAG tudalen 48
6.2 Rôl y sector mewn Rhwydweithiau Dysgu eraill tudalen 49
6.3 RISE tudalen 50
6.4 Rhwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin tudalen 51
6.5 Casgliadau am rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro tudalen 52

7.0 Casgliadau

7.1 Mapio'r ddarpariaeth bresennol tudalen 54
7.2 Adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr tudalen 54
7.3 Modelau darparu tudalen 55
7.4 Cyfrannu at Rwydwaith Ddysgu tudalen 55

8.0 Argymhellion tudalen 57

Llyfryddiaeth/Cyfeiriadau

Atodiadau

Rhestr Ffigurau

Ffigur	Disgrifiad	
1	Ciplun o'r math o gyrsiau gaiff eu darparu gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro gyda mwy nag wyth cwrs yn cael eu cynnig fesul categori	tudalen 13
2	Ciplun o'r math o gyrsiau gaiff eu darparu gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro gyda llai nag wyth cwrs yn cael eu cynnig fesul categori	tudalen 13
3	Amledd darparu cyrsiau	tudalen 14
4	Gwahanol ffyrdd yr ariennir darpariaeth hyfforddi'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 15
5	Ystod prisiau cyrsiau hyfforddi'r sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 16
6	Defnydd lleoliadau i ddarparu hyfforddiant y sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 17
7	Hyfforddwyr a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant y sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 18
8	Mynediad i ddarpariaeth hyfforddi'r sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 19
9	Y mathau o weithgareddau a ddefnyddir i hyrwyddo cyrsiau'r sector Gwirfoddol a Chymunedol	tudalen 20
10	Dulliau adnabod anghenion hyfforddi	tudalen 33

Diolchiadau

Mae diolch yn ddyledus i'r canlynol:

Yr holl fudiadau gwirfoddol a chymunedol wnaeth lenwi a dychwelyd holiadur

Yr holl fudiadau gwirfoddol a chymunedol wnaeth gymeryd rhan yn y cyfweliadau

Aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol (TAG)

Tîm Gweinyddu Prosiect PAVS

Mike Isted, Cyngor Sir Benfro (Porth Addysg)

Alyson Jenkins, Rhwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin

Sue Leonard, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Vicky Parsons, Neuadd Gymunedol St John's, Doc Penfro

Dave Waddington, Rhwydwaith Ddysgu RISE

Cynorthwywyr Ymchwil: Jenny Blackmore, Angela Evans

Ariannu: ELWa dan raglen y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd

Crynodeb Gweithredol

Drwy Gronfa Buddsoddi ar y Cyd ELWa, derbyniwyd cyllid er mwyn gwneud ymchwil i ddarpariaeth dysgu Oedolion ac yn y Gymuned (DOG) yn y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ganlyniadau'r ymchwil, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), sydd wedi'i wneud ar draws y sector. Mae'n darparu cyfraniad sylweddol tuag at ymchwil arall sydd wedi'i wneud gan Sir Benfro yn Dysgu a Choleg Sir Benfro wrth ystyried datblygiad model darparu ar gyfer dysgu Oedolion ac yn y Gymuned yn Sir Benfro sydd yn hyblyg, yn gosteffeithiol, yn canolbwyntio ar ansawdd, ac yn ymatebol i ofynion dysgwyr.

Cafwyd cyfradd ymateb o 25% o'r holiaduron llinell isaf ddosbarthwyd i aelodau PAVS (222), a chymerodd 30 o fudiadau ran mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb. Yn ogystal, cynhaliwyd dau sesiwn grŵp ffocws gydag aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol (TAG). Mae gwybodaeth gafwyd o'r holiadur llinell isaf ac o'r cyfweliadau yn dangos fod y mudiadau gymerodd rhan yn cynrychioli mwy na 2000 o wirfoddolwyr, 454 o ymddiriedolwyr, 239 o staff sy'n cael eu talu (unigolion nid yr hyn sy'n gyfwerth â llawn amser), ac fod ganddynt fwy na 7000 o aelodau. Fodd bynnag, cydnabyddir fod yna fudiadau gwirfoddol a chymunedol eraill sy'n darparu hyfforddiant sydd heb eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a tra bod y cyfranogwyr gymerodd rhan yn yr ymchwil hwn yn cynrychioli 15 o brif feysydd (manylion yn Adran 1.2), mae'r wybodaeth yma yn cael ei chyflwyno fel 'ciplun' yn hytrach na darlun cyflawn o'r ddarpariaeth ar draws y sector.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r ddarpariaeth bresennol o gyfleoedd DOG yn y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro, gan archwilio cynnwys y dysgu gaiff ei ddarparu, sut caiff ei gynllunio a'i ariannu, i bwy mae'n agored, a materion ynghylch darparu. Disgrifir dulliau adnabod anghenion dysgwyr, ac archwilir cyfleoedd i rannu gwybodaeth o'r fath, ynghyd â manylion ar beilota a gwerthuso datblygiadau arloesol mewn darparu. Caiff meysydd blaenoriaeth presennol a dyfodol ar gyfer hyfforddi yn y sector eu hadnabod, yn ogystal â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Rhoddir ystyriaeth i rôl bosibl y sector mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro, ac mae modelau o rwydweithiau o ddwy ardal arall wedi'u hadolygu fel y gall elfennau o'u llwyddiant gael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys mewn model ar gyfer Sir Benfro.

Mae **Mapio'r ddarpariaeth bresennol** yn dangos bod lefel darpariaeth cyfleoedd dysgu gan y sector yn iach, os nad wedi'i ddosbarthu'n gyson, ac mae yna nifer o ddarparwyr hyfforddi craidd sy'n debygol o barhau i gynnig hyfforddiant, ac mewn nifer sylweddol o achosion, i ehangu lefel bresennol eu gweithgaredd ac ehangu mynediad i'r cyfleoedd dysgu maent yn eu darparu.
Fe ymddengys bod darpariaeth hyfforddi yn cael ei arwain i raddau helaeth gan ddefnyddwyr, gan ymateb i anghenion fel maen nhw'n codi, gydag hyfforddiant rheolaidd sydd wedi'i drefnu o flaen llaw yn ffurfio rhan lai o'r ddarpariaeth. Mae yna lefel o ddiddordeb mewn darparu cyfleoedd dysgu achrededig yn y dyfodol.

Mae yna gronfa dda o sgiliau o fewn y sector gan fod tua 44% o'r ddarpariaeth yn cael ei drosglwyddo gan staff a/neu gwirfoddolwyr, fodd bynnag, mae yna le pellach i ddatblygu sgiliau hyfforddi yn fewnol a gweithio gyda darparwyr presennol i gefnogi a gwella'u darpariaeth ac archwilio dulliau arall o ddarparu. Mae cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn fater sydd angen blaenoriaeth o ran ei ystyried gan fod mwy na hanner y cyrsiau yn cael eu rhedeg yn ôl y galw, gyda mwyafrif y mudiadau yn derbyn dim arian craidd ar gyfer eu gweithgareddau.

Roedd ymchwil ar **Adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr** yn ystyried fod mwyafrif y mudiadau gymerodd rhan yn ymgymryd â rhyw fath o adnabod anghenion dysgwyr mewn modd bwriadol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau. Mae ychydig o dan hanner yn cofnodi'r wybodaeth, felly mae angen ystyried datblygu protocolau ymarferol a safonol ar gyfer cofnodi a rhannu anghenion adnabyddedig, er mwyn sicrhau dulliau mwy strategol a chyd-drefnus ar gyfer cynllunio i ateb anghenion dysgu. Eisoes, mae rhannu gwybodaeth rhwng y sector a mudiadau allanol eraill yn digwydd i raddau a chydnabyddwyd y gellid gwella ar hyn.

Fodd bynnag, mynegwyd rhai gofidion ynghylch yr angen i sicrhau fod ymdrechion i gwrdd â'r anghenion hyn yn ystyrlon ar gyfer grwpiau cleient penodol, a'u bod yn cymryd eu disgwyliadau diwylliannol, eu profiadau, a'u cyd-destun priodol i ystyriaeth. Nododd yr ymchwil hwn fod isadeiledd technegol a gweinyddol, ac hyd yn oed ariannu wedi'i gyfeirio'n strategol, i hwyluso gweithio mewn partneriaeth er mwyn mapio a chwrdd ag anghenion dysgwyr yn well, yn amod angenrheidiol, ond nid digonol, o gyrraedd dechrau Rhwydwaith Ddysgu effeithiol lle mae gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol ran gyfartal i'w chwarae. Peth arall sydd ei angen yw dealltwriaeth o'r ddwy ochr a sgwrsio er mwyn wynebu a chysoni (ac nid llethu) gwahaniaethau diwylliannol rhwng partneriaid a buddiannau'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli, er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth effeithiol sy'n parchu a gwerthfawrogi'r amrywiol anghenion a chryfderau sydd i'w cael o fewn a thu allan i'r sector.

Mae'r ymchwil yma wedi archwilio nifer o **fodelau darparu** er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall dysgwyr elwa o drefniadau llai ffurfiol, a'r potensial i'r rheiny blethu â'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y brif ffrwd, gydag ystyriaeth i ddulliau cynaliadwy o ddarparu. Mae'r tri maes sydd wedi'u peilota yn yr ymchwil hwn wedi rhoi cyfle gwych i archwilio gwahanol ddulliau o fodelau darparu. Mae potensial technoleg, yn enwedig dysgu ar-lein, i gynnig ateb i faterion mynediad daearyddol a lleihau costau yn sylweddol, ond mae hefyd yn bwysig cadw cyd-destun cymdeithasol dysgu, a'r cyfraniad mae rhyngweithio cymdeithasol yn ei wneud i gyfoeth a budd y profiad dysgu'n ehangach mewn ffocws.

Beth bynnag fo'r technegau darparu penodol, mae defnyddio dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr yn help i roi teimlad o bŵer a hyder i ddysgwyr arferai fod heb eu grymuso, ac yn cynyddu cymhelliad. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi darparwyr i dynnu ar y profiad arbenigol mewn sectorau penodol er mwyn gosod y dysgwr, gyda'i holl anghenion dysgu, gan gynnwys y cyd-destun cymdeithasol a rhyngbersonol y caiff y broses ddysgu ei hwyluso ynddo, yng nghanol y darlun. Os oes gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol un cryfder, yna'r profiad hwn o weld y dysgwr mewn cyd-destun cyfannol yn ei filltir sgwâr yw hwnnw, a rhaid cadw'r safbwynt arbennig hwn ac adeiladu arno os yw'r sector am wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gall cymryd rhan mewn rhaglen fwriadol o ddatblygu partneriaeth eu cynnig.

Mae'r ymchwil a wnaed yn amlygu nifer o faterion pwysig am rôl bosibl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn **Rhwydwaith Ddysgu** ar gyfer Sir Benfro. Mae hi'n amlwg fod angen gwneud mwy o waith er mwyn eglurhau mewn termau cyffredinol y cysyniad o 'Rwydwaith Ddysgu' gan nad oedd nifer o sefydliadau a mudiadau gymerodd rhan yn yr ymchwil hwn yn gallu ffurfio ymateb clir i gwestiynau allweddol oedd yn cynnwys y term 'Rhwydwaith Ddysgu'. Cyn bod modd ymgymryd â rhwydwaith o'r fath, rhaid cael dealltwriaeth gliriach o beth yw Rhwydwaith Ddysgu.

Mae sawl rôl y gallai'r sector eu cyflawni mewn Rhwydwaith Ddysgu effeithiol ar gyfer Sir Benfro, gan gynnwys darparwr hyfforddi, gan gynnig darpariaeth arbenigol a chyflenwol. Gwelwyd agosrwydd y sector i 'lawr gwlad' yn arbennig o werthfawr er mwyn darparu cyfleoedd dysgu hyblyg gaiff eu harwain gan y defnyddiwr ac sydd yn arbennig o ymatebol i anghenion cymunedol, a darpariaeth *niche* o gyfleoedd dysgu sy'n adlewyrchu'r wybodaeth arbenigol sydd wedi codi o fewn y sector wrth iddo dyfu drwy ymateb i'r anghenion hynny. Adnabuwyd hefyd rôl eiriolwr a dehonglwr anghenion cymunedol i ddarparwyr dysgu, yn ogystal ac adnabod a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd gan y sector er mwyn gwella ansawdd a pherthnasedd y rhaglenni hyfforddiant ac addysgol gaiff eu darparu i bobl broffesiynol, ac i eraill sy'n gweithio mewn meysydd sy'n cyffwrdd ar fuddiannau grwpiau budd arbennig penodol, er enghraifft defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Os yw'r sector am chwarae ei rôl o fewn y Rhwydwaith Ddysgu yn effeithiol, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei drin fel partner go iawn a chyfartal gan eraill a'i fod yn cyrraedd parch cydradd. Mae adnabod, deall a pharchu'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng partneriaid yn ffactorau pwysig mewn sicrhau sylfaen gadarn y gall Rhwydwaith effeithiol a llwyddiannus esblygu ohoni.

Hefyd, mae angen rhoi ystyriaeth i allu'r sector i ymgymryd yn llwyr â'r Rhwydwaith a sut y bydd yn cael ei gynrychioli a sut bydd eraill yn ymgynghori ag ef.

Dylai **argymhellion allweddol** yr ymchwil hwn gael eu gweld yng nghyd-destun y casgliadau ehangach gaiff eu manylu yn Adran 7, ac adlewyrchu'r posibilrwydd i'r sector Gwirfoddol a Chymunedol chwarae rhan bositif a gweithredol mewn helpu i ddatblygu Rhwydwaith Ddysgu Oedolion ac yn y Gymuned effeithiol yn Sir Benfro. Awgryma'r argymhellion y dylid gwneud ymchwil bellach ar fapio'r ddarpariaeth ar draws y sector, ac y dylid gwerthuso'r systemau gwybodaeth er mwyn sicrhau dull gyd-drefnus a chydlynol o fynd ati i adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr. Dylid rhoi cefnogaeth i fudiadau gyda'u cynlluniau am ddatblygiadau i'r dyfodol, yn ogystal â chyflwyno'r fframweithiau ansawdd fydd yn hanfodol ar gyfer ariannu yn y dyfodol.

Dengys yr ymchwil hwn yn glir fod gan y sector rôl bwysig, ac unigryw mewn sawl ffordd, i'w chwarae mewn darparu cyfleoedd dysgu oedolion ac yn y gymuned o fewn Sir Benfro. Wrth baratoi am ddyfodiad Rhwydwaith Ddysgu, bydd hi'n bwysig adnabod meysydd o arbenigedd penodol fydd yn galluogi'r sector i chwarae rôl bositif mewn datblygu'r rhwydwaith yma.

Yng nghyd-destun datblygu dulliau integredig a chynaliadwy ar gyfer hyfforddiant yn y sector, mae'n rhaid diogelu cyllid sy'n annog cyd-weithio yn hytrach na chystadleuaeth a dull strategol sy'n cael ei arwain yn llai gan brosiectau na gan ffocws ar gynllunio hirdymor yn hytrach na chan brosiectau tymor byr wedi'u gyrru gan gyllid. Dylid cynllunio cyllid i annog a galluogi gweithio mewn partneriaeth a lleihau dyblygiad ymdrech. Yn y pen draw, mae angen i'r cyllid ddilyn y dysgwr, a golyga hyn y dylai gael ei gynllunio a'i ddosbarthu mewn ffordd sy'n gweld y dysgwr yn eu cyd-destun cymunedol, gan ymateb i rwystrau i fynediad a dyheadau'r dysgwr er mwyn sicrhau fod cyfle cyfartal yn realiti mewn dysgu ar gyfer oedolion ac yn y gymuned.

Gan ddathlu a phrisio'r amrywiaeth sy'n rhan o gryfder unigryw y sector, mae dal angen iddo ddiffinio a chyfathrebu athroniaeth gydlynol a gwahaniaethol, ac ystyried ac hyrwyddo'r amryw esiamplau o arfer da y mae wedi'u datblygu ac sy'n gallu cyfrannu tuag at gyfoethogi'r profiad dysgu ar gyfer oedolion ac yn y gymuned ar gyfer pobl Sir Benfro.

1. Rhesymeg a Methodoleg yr ymchwil

1.1 Rhesymeg

Drwy Gronfa Buddsoddi ar y Cyd ELWa, derbyniwyd cyllid yn Sir Benfro er mwyn gwneud ymchwil i ddarpariaeth dysgu Oedolion ac yn y Gymuned ar draws yr Awdurdod Lleol, Coleg Sir Benfro, a'r sector Gwirfoddol a Chymunedol. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar yr ymchwil wnaed o fewn y sector Gwirfoddol a Chymunedol, a gomisiynwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS).

Amcan cyffredinol y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd yw ymateb i'r angen am gydweithio agosach yn narpariaeth Dysgu Oedolion ac yn y Gymuned (DOG) er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau, gwneud i ffwrdd â chystadleuaeth ddiwerth, a chwrdd ag anghenion dysgu drwy'r broses o:

- Fapio darpariaeth hyfforddi ac anghenion dysgwyr
- Peilota a gwerthuso modelau newydd o ddysgu
- Gwneud argymhellion ar ddatblygiad model yn y dyfodol o Rwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro.

Gwelir y canlyniadau manwl sy'n gysylltiedig â'r ymchwil a wnaed yn Atodiad 1. Yr amcan cyffredinol yw sicrhau fod yr ymchwil a wnaed ar draws y sector yn cyfrannu tuag at ddatblygu model darparu DOG yn Sir Benfro sydd yn hyblyg, yn gosteffeithiol, yn canolbwyntio ar ansawdd, ac yn ymatebol i anghenion dysgwyr.

Mae yna hefyd ail ffactor gorfodol o ran annog cydweithio ym maes dysgu Oedolion ac yn y Gymuned, sef Estyn – swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sydd yn archwilio darparwyr addysg a hyfforddiant unigol yng Nghymru. Mae eu mandad nhw'n cynnwys archwilio pob darpariaeth dysgu a ariennir gan ELWa, gan gynnwys y prosiectau Ewropeaidd hynny lle daw'r arian cyfatebol oddi wrth ELWa. Bydd archwiliadau Dysgu Oedolion ac yn y Gymuned yn cynnwys y sector Gwirfoddol a Chymunedol, gydag ymweliadau i Gynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn darganfod pa ran mae'r sector yn ei chwarae ym mhrosesau cynllunio strategol ar gyfer DOG, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cyflenwi darpariaeth eu hunain.

1.2 Methodoleg

Defnyddiwyd dulliau ansoddol a mesurol er mwyn casglu data ar draws y sector Gwirfoddol a Chymunedol. Cofnodwyd a dadansoddwyd data mesurol gan ddefnyddio Excel a thechnegau dadansoddi ystadegol. Dadansoddwyd data ansoddol gan archwilio amrywiaeth a chynnwys ymatebion i'r cyfweliadau a chwestiynau grŵp ffocws er mwyn adnabod pynciau, blaenoriaethau, pryderon a gwahaniaethau cyffredin.

Cam cyntaf yr ymchwil oedd datblygu **holiadur llinell isaf**[1] i'w ddosbarthu i holl aelodau PAVS. Yn dilyn trafodaethau gyda staff PAVS, datblygwyd, peilotwyd (drwy'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant) a dosbarthwyd holiadur drwy'r post i gyfanswm o 222 o fudiadau, i gyd yn aelodau o PAVS. Roedd yr holiadur hefyd ar gael i'w lenwi ar-lein ar wefan PAVS. Cwblhawyd 55 o holiaduron, gan roi cyfradd ymateb o 25%. Cyflwynir y data o'r holiaduron hyn yn Atodiad 3.

[1] Mae holiadur llinell isaf gwag ar gael yn Atodiad 2

Yr ail gam oedd datblygu strwythur y cwestiynau i'w holi mewn **cyfweliadau wyneb i wyneb (yn bennaf) gyda mudiadau**. Datblygwyd pro-forma[2] i'w ddefnyddio gan ymchwilwyr, gyda chwestiynau allweddol yn cael eu peilota drwy sesiwn grŵp ffocws cyntaf TAG ym mis Rhagfyr 2005.

Y dasg nesaf oedd dethol y mudiadau i'w cyfweld. Roedd nifer o'r rhai oedd wedi ateb yr holiadur eisoes wedi datgan eu parodrwydd i gymryd rhan mewn ymchwil bellach, ac yna clustnodwyd 33 mudiad, yn gyfuniad o'r rhai oedd wedi ymateb i'r holiadur a'r rheiny sydd â Chytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd, wedi'i seilio ar wybodaeth oedd ar gael o gronfa ddata PAVS. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i sicrhau fod meysydd allweddol yn cael eu cynrychioli (gweler isod), a bod nifer y mudiadau i'w cyfweld yn hydrin o fewn y terfynau amser a ganiateid.

I ddechrau, cysylltwyd â mudiadau ar y ffôn, a chymerodd cyfanswm o 30 rhan mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb, gyda dim ond un cyfweliad yn cael ei wneud ar y ffôn. Roedd y cyfweliadau yn ymhelaethu ar feysydd oedd wedi'u trafod yn yr holiadur llinell isaf ac yn archwilio ystod o bynciau gan gynnwys cynllunio darpariaeth hyfforddi, adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr, a barnau am gyfraniad y sector i Rwydwaith Ddysgu Sir Benfro. Roedd deg o'r mudiadau a gyfwelwyd heb gwblhau na dychwelyd holiadur llinell isaf, felly cafwyd y data hwn yn y cyfweliad a chynhwyswyd y canlyniadau yn y dadansoddiad llinell isaf. Cynrychiolwyd y meysydd canlynol gan fudiadau a gymerodd rhan yn y cyfweliadau:

- Cyngor a Gwybodaeth
- Eiriolaeth
- Celfyddydau
- Datblygu Cymunedol
- Neuaddau Cymunedol
- Anabledd
- Amgylcheddol
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn
- Gofal Cymdeithasol/Gofalwyr
- Menter Cymdeithasol
- Chwaraeon a Difyrrwch
- Trafnidiaeth Wirfoddol
- Iaith Gymraeg
- Ieuenctid

Hefyd, cynhaliwyd dau **sesiwn grŵp ffocws** gydag aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol (TAG). Mae pump ar hugain o wahanol fudiadau yn gysylltiedig â TAG, gan gynrychioli ystod eang o feysydd, gan gynnwys iechyd meddwl, anabledd, datblygu cymunedol, neuaddau cymunedol, pobl hŷn, gofal cymdeithasol/gofalwyr, ieuenctid, a chyn oed ysgol. Caiff mudiadau eraill hefyd eu cynrychioli, megis Coleg Sir Benfro a Gyrfa Cymru Gorllewin, sydd â diddordeb mewn darpariaeth sector Gwirfoddol a Chymunedol.

Roedd un ar ddeg o aelodau yn bresennol yn y sesiwn cyntaf, yn cynrychioli 9 o fudiadau gwahanol, ac roedd 7 yn bresennol yn yr ail sesiwn, yn cynrychioli 6 o fudiadau gwahanol. Mae'r nodiadau gafodd eu hysgrifennu ar bapur siart fflip wedi'u copïo ac maent ar gael i'w darllen yn Atodiad 5.

[2] Mae pro-forma gwag ar gael yn Atodiad 4

1.3 Ynghylch Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro

Cymdeithas annibynnol grwpiau gwirfoddol a chymunedol Sir Benfro yw PAVS. Mae'n un o'r mudiadau cydnabyddedig, annibynnol, gydag aelodaeth, sy'n ffurfio rhwydwaith o gwmpas Cymru, ac fe'i sefydlwyd er mwyn cefnogi a datblygu gweithredu gwirfoddol yn Sir Benfro. Mae PAVS hefyd yn darparu rhyngwyneb, neu berthynas weithio, rhwng mudiadau gwirfoddol a statudol.

Mae PAVS yn meddu ar, ac yn diweddaru gwybodaeth ar 613[3] o grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu yn y sir, ac ar hyn o bryd, mae ganddo 222 o aelodau gweithgar. Amcangyfrifir fod y sector yn darparu cyflogaeth i 1549 o bobl yn Sir Benfro gyda 45% o'r swyddi hyn yn rhai llawn amser. Mae dros 5,600 o bobl ynghlwm â'r sector drwy fod yn ymddiriedolwyr mudiadau gwirfoddol ac mae 13,743 o bobl eraill yn gwirfoddoli, gan ymgymryd ag ystod eang o ddyletswyddau mewn amryw leoliadau.

[3] Almanac Sector Gwirfoddol Sir Benfro, PAVS 2003

1.4 Data ystadegol a phroffeil o'r mudiadau gymerodd rhan

Mae gwybodaeth ddaeth o'r holiadur llinell isaf ac o'r cyfweliadau yn dangos fod y mudiadau gymerodd rhan yn cynrychioli mwy na **2000** o wirfoddolwyr, **454** o ymddiriedolwyr, **239** o staff cyflogedig (unigolion nid yr hyn sy'n gyfwerth â llawn amser), gyda mwy na **7000** o aelodau**.**

*O ran nifer y **gwirfoddolwyr** sydd ynghlwm â'r mudiad:*

Dywedodd 35% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn aros yr un peth
Dywedodd 35% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn gynyddu
Dywedodd 3% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn leihau
Ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 25%
Atebodd 2% 'arall' er na roddwyd yr opsiwn yma

*O ran nifer y **staff gaiff eu talu** o fewn y mudiad:*

Dywedodd 48% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn aros yr un peth
Dywedodd 22% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn gynyddu
Dywedodd 2% eu bod yn disgwyl i'r nifer hwn leihau
Ni chafwyd ymateb i'r cwestiwn hwn gan 28%

Teg fyddai dweud fod hyn yn awgrymu fod y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro yn parhau i fod yn fywiog, gydag arwyddion cadarnhaol o dwf yn y dyfodol, heb fawr o arwydd o unrhyw bryderon am leihad yn nifer y gwirfoddolwyr a staff sy'n gysylltiedig â'r sector hwn yn y dyfodol.

2. Y Sector Gwirfoddol a Chymunedol fel Darparwr Hyfforddiant

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar rôl y sector fel darparwr cyfleoedd Dysgu Oedolion ac yn y Gymuned yn Sir Benfro. Archwilir y math o ddarpariaeth, gan gynnwys ystod y meysydd pwnc, a materion megis achredu dysgu, a dulliau darparu. Ceir hefyd archwiliad o ddulliau ariannu, ac amseru a lleoliad darpariaeth. Cafwyd trafodaeth am faterion allanol allai effeithio ar natur y ddarpariaeth a'r materion sy'n effeithio ar fudiadau yn eu rôl fel darparwyr hyfforddi.

O'r holiadur llinell isaf, dangoswyd fod ychydig dros hanner (51%; 28) o atebwyr yn darparu gweithgareddau hyfforddi a dysgu ar hyn o bryd. O'r mudiadau hynny sydd ddim yn darparu gweithgareddau hyfforddi a dysgu ar hyn o bryd, dywedodd 2 allan o 3 yn bendant na fyddai ganddynt ddiddordeb gwneud hynny yn y dyfodol, a dywedodd un allan o bedwar y byddai ganddynt ddiddordeb.

2.1 Mapio'r ddarpariaeth

Gellir gweld manylion am y math o hyfforddiant a ddarperir gan yr atebwyr hyn yn Atodiad 6. Lle roedd hi'n bosib, casglwyd data ar gost yr hyfforddiant, pwy oedd yn darparu'r hyfforddiant (e.e. staff neu hyfforddwyr allanol), lleoliad y gweithgareddau, sut caiff ei ariannu, ac i bwy mae'r hyfforddiant yn agored. Mae dadansoddiad o'r data hwn wedi galluogi cynhyrchu'r graffeg a welir yma. Cydnabyddir fod mudiadau gwirfoddol a chymunedol eraill sy'n dapraru hyfforddiant sydd heb eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, a tra fod y rheiny gymerodd rhan yn yr ymchwil hwn yn cynrychioli'r prif feysydd a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yma fel 'ciplun' yn hytrach na darlun cyflawn o'r ddarpariaeth ar draws y sector.

Mae'r ddarpariaeth wedi'i chategoreiddio yn 23 gwahanol faes gweithgaredd, o eiriolaeth a chelf a chrefft, i sgiliau personol, a thechnoleg. Mae hyn yn adlewyrchu amrywiaeth y sector ac ystod y ddarpariaeth sydd ei angen er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr. Er mwyn galluogi cynrychiolaeth graffigol o'r wybodaeth yma, rhannwyd y categorïau wedyn yn ddau, sef lle cynigir wyth neu fwy o gyrsiau fesul maes pwnc, a lle cynigir llai nag wyth cwrs fesul maes pwnc.

Ffigur 1 **Ciplun o'r math o gyrsiau a ddarperir gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro gyda mwy nag wyth cwrs yn cael eu cynnig fesul categori**



Ffigur 2 **Ciplun o'r math o gyrsiau a ddarperir gan y Sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro gyda llai nag wyth cwrs yn cael eu cynnig fesul categori**



2.1.1 Meysydd pwnc

Fel nodwyd eisoes uchod, mae ehangder y meysydd pwnc a gynigir yn adlewyrchu amrywiaeth y sector yn gyffredinol yn Sir Benfro. Mae prif elfen yr hyfforddiant a ddarperir gan fudiadau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr a staff er mwyn dilyn amcanion a gweithgareddau'r mudiad. Mae mwyafrif yr 19% o hyfforddiant sy'n cynnig mwy nag 8 o gyrsiau sy'n ymwneud â hamdden a difyrrwch personol yn cael ei ddarparu gan ddim ond dau fudiad. Ar y cyfan, gellir ystyried fod yr holl hyfforddiant a gynigir gan y sector yn darparu ystod bwysig o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth, gan gyfrannu tuag at effaith bositif y sector ar fywyd cymunedol a diwylliannol yn Sir Benfro.

2.1.2 Amseru

Gofynnwyd i fudiadau pa mor aml oedden nhw'n darparu eu hyfforddiant. Rhoddwyd yr opsiynau hyn:

- unwaith y mis
- yn chwarterol
- yn flynyddol
- yn ôl y galw
- arall

Ffigur 3 Amlder darparu cyrsiau



Caiff ychydig dros hanner (51%) y cyrsiau eu darparu yn ôl y galw. Caiff gweddill y cyrsiau eu darparu ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn, gyda 10% yn rhan o raglen wedi'i chynllunio neu weithgareddau wedi'u trefnu. Mae'n debyg mai'r rheswm dros drefnu cymaint o gyrsiau 'yn ôl y galw' yw'r ffaith nad yw mwyafrif y mudiadau yn derbyn unrhyw gyllid craidd ar gyfer eu darpariaeth hyfforddi. Mae'r 14% o gyrsiau gaiff eu darparu ar adegau 'arall' yn cynnwys rhai sy'n Seiliedig ar brosiect (3), Dosbarthiadau rheolaidd (3), Bob pythefnos (1), a Pharhaol (1).

2.1.3 Costau ac Ariannu

Gofynnwyd i fudiadau roi gwybodaeth am sut oedden nhw'n ariannu eu darpariaeth, ac a oedden nhw'n codi am fynychu. O ran darpariaeth ariannu, rhoddwyd yr opsiynau:

- ELWa
- Ewropeaidd
- Codir ffïoedd cwrs
- Ariennir yn fewnol
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth
- Arall

Ffigur 4 Ffyrdd y caiff darpariaeth hyfforddi'r sector Gwirfoddol a Chymunedol ei ariannu



Mae ychydig dros draean (34%) o gyrsiau yn cael eu rhedeg oherwydd Arian Ewrop (ESF). Fodd bynnag, er mwyn cael arian Ewropeaidd, mae'n rhaid sicrhau fod 'cyllid cyfatebol' ar gael ac o ganlyniad i hyn, dylid nodi fod llawer o'r ddarpariaeth a ariennir drwy ESF hefyd yn cael ei gefnogi drwy gronfeydd eraill megis ELWa neu Lywodraeth Cynulliad Cymru (WAG).

Mae'r 19% o gyrsiau gaiff eu rhedeg drwy ffyrdd eraill yn cynnwys ffïoedd aelodau, cronfeydd loteri, cyfraniadau, a chysylltu gyda darparwyr eraill megis Coleg Sir Benfro er mwyn darparu hyfforddiant sydd yn rhad ac am ddim yn y man darparu.

Mae gan nifer fechan o fudiadau sydd ynghlwm â'r ymchwil hwn Gytundebau Lefel Gwasanaeth sydd yn darparu cyllid ar gyfer eu gweithgareddau, ac mae gan 9% o gyrsiau ffïoedd cwrs ynghlwm â nhw er mwyn ateb y costau. Caiff nifer tebyg (12%) eu hariannu'n fewnol.

Codi ffïoedd cwrs – Opsiynau roddwyd ar gyfer ffïoedd cwrs oedd:

- Dim cost
- £5-£10
- £10-£20
- Arall

Ffigur 5 Ystod o brisiau ar gyfer cyrsiau hyfforddi sector Gwirfoddol a Chymunedol



Ni chodir ffïoedd cwrs ar gyfer 40% o'r gyrsiau gaiff eu rhedeg. Yn gyffredinol, mae hyn yn adlewyrchu lefel y cyrsiau gaiff eu darparu o ganlyniad i arian Ewropeaidd. Mae'r 23% 'arall' yn cynnwys 21 o gyrsiau lle mae'r ffî'n amrywio, mewn rhai achosion dim ond *'digon i gwrdd â chostau'* ac eraill yn yr ystod £0-£75. Caiff 3 chwrs eu cynnig yn rhad ac am ddim i wirfoddolwyr ond codir tâl (o rhwng £10-£20) ar gyfer pobl eraill. Mae yna un enghraifft lle caiff 'ffi ymgynghori' o £350+TAW ei godi, ac un arall lle caiff ffi o £250+ ei godi 'gan ddibynnu ar y cyd-destun'.

2.1.4 Lleoliadau

Gofynnwyd i fudiadau lle roedden nhw'n darparu eu hyfforddiant. Yr opsiynau a roddwyd oedd:

- Mewnol
- Lleoliad cymunedol
- Coleg
- Arall

Ffigur 6 Defnydd lleoliadau i ddarparu hyfforddiant sector Gwirfoddol a Chymunedol



Caiff pedwar deg y cant o gyrsiau eu darparu 'yn fewnol' yn adeilad y mudiad, a 32% mewn lleoliad cymunedol. Nodwyd 9 cwrs oedd yn cael eu darparu naill ai'n fewnol neu mewn lleoliadau cymunedol, a 6 naill ai yn fewnol neu mewn lleoliadau gwaith maes (cynhwysir lleoliadau gwaith maes o dan 'arall'). Dim ond 2% (3 chwrs) gaiff eu darparu yng Ngholeg Sir Benfro a chaiff un cwrs ei ddarparu mewn ysgol.

2.1.5 Hyfforddwyr

Gofynnwyd i fudiadau nodi pwy sydd yn darparu'r hyfforddiant maen nhw'n ei gynnig. Yr opsiynau a roddwyd oedd:

- Aelod staff
- Gwirfoddolwyr
- Hyfforddwr Allanol
- Tiwtor Coleg
- Arall

Ffigur 7 Hyfforddwyr a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant sector Gwirfoddol a Chymunedol



Mae bron i draean yr holl ddarpariaeth hyfforddi yn cael ei gyflwyno gan staff o fewn y mudiad, ac 13% gan wirfoddolwyr o fewn y mudiad. Caiff dau ddeg pump y cant o'r ddarpariaeth ei gyflwyno gan hyfforddwyr allanol. Mae nifer y staff sydd ynghlwm â chyflwyno'r ddarpariaeth yn galonogol yn nhermau'r set sgiliau sydd ar gael yn bresennol, er mae hi'n glir o'r cyfweliadau gyda'r mudiadau fod yr hyfforddiant a ddarperir gan aelodau unigol o staff yn adlewyrchu rhan fechan yn unig o'u gwaith o fewn y mudiad yn y rhan fwyaf o achosion.

Roedd hyfforddwyr eraill a ddefnyddir, a nodwyd mewn 13% o gyrsiau, yn cynnwys tri o unigolion a enwyd lle nad oedd hi'n bosibl cadarnhau pa un ai oedden nhw yn staff neu'n hyfforddwyr allanol, tri lle roedd yr ateb yn *'amrywiol'*, dau *'arbenigwr'*, a saith gafodd eu hadnabod yn unig fel *'tiwtoriaid cymwys a phrofiadol'*. Mewn nifer o achosion (8) fe nodwyd bod cyfuniad o staff a/neu wirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r hyfforddiant neu gyfuniad o staff neu hyfforddwyr allanol (2).

2.1.6 Mynediad

Gofynnwyd i fudiadau nodi pwy oedd yn gallu cael mynediad i'w hyfforddiant. Yr opsiynau a roddwyd oedd:

- Pobl o fewn y mudiad yn unig
- Agored i eraill sy'n gweithio neu wirfoddoli yn yr un maes sector
- Agored i unrhyw un sydd â diddordeb

Ffigur 8 Mynediad i ddarpariaeth hyfforddi'r sector Gwirfoddol a Chymunedol



Mae ychydig o dan draean (31%) o'r ddarpariaeth hyfforddi yn agored i unrhyw un ei fynychu. Mae 27% o gyrsiau ar gael i unrhyw un sy'n gweithio neu wirfoddoli yn yr un maes sector, ac mae 21% yn agored i bobl o fewn y mudiad ei hun yn unig (gall hyn fod yn staff, gwirfoddolwyr, neu ymddirieddolwyr). O'r 19% o gyrsiau a nodwyd yn 'eraill' mae'r rhain yn cynnwys 'aelodau'n unig' (12), myfyrwyr ar gyrsiau penodol y mae'r mudiad yn cyfrannu tuag atynt (3), a meini prawf penodol iawn ar gyfer mynychwyr, e.e. hyd at 19 mlwydd oed ac yn byw mewn ardal ddaearyddol benodol (6).

Mae'n ddiddorol ystyried y data hwn yng nghyd-destun cwestiwn pellach a holwyd yn yr holiadur ynghylch pa un ai oedd mudiadau'n bwriadu agor eu darpariaeth i gynulleidfa ehangach. Os oedd mudiadau gymerodd rhan yn y cyfweliadau yn nodi eu bod yn bwriadu gwneud, yna gofynnwyd am fanylion pellach, gan gynnwys pa ffactorau allai fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad yma.

Y cwestiwn ofynwyd yn yr holiadur llinell isaf oedd *'Os ydych chi'n darparu hyfforddiant mewnol yn unig, ydych chi neu a fyddech chi'n ystyried agor yr hyfforddiant i sector/gymuned ehangach yn y dyfodol?'*

Dywedodd ychydig dros hanner atebwyr y cwestiwn hwn eu bod yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth, er fod hyn yn cynrychioli dim ond 4 mudiad. Dywedodd tri mudiad (43%) nad oedden nhw'n bwriadu agor eu darpariaeth i gynulleidfa ehangach. Gellir casglu fod yr 18 mudiad sydd yn weddill eisoes yn ehangu eu darpariaeth y tu hwnt i gylch y mudiad eu hun.

Archwiliodd y cyfweliadau y rhesymau tu ôl i benderfyniad y mudiad i ehangu (neu i beidio ag ehangu) eu darpariaeth. Y prif reswm a nodwyd dros beidio ag ehangu darpariaeth oedd diffyg amser ac arian. Roedd y rhesymau a roddwyd dros ehangu cyfranogiad yn cynnwys yr angen i recriwtio mwy o wirfoddolwyr er mwyn ehangu'r mudiad, a dymuniad i recriwtio pobl ifancach. Nodwyd rhai dogfennau polisi'n gysylltiedig â materion megis dinasyddiaeth fyd-eang a newidiadau deddfwriaethol yn ddylanwad ar y penderfyniadau hyn. Cododd y drafodaeth am y posibilrwydd o ehangu mynediad hefyd gwestiynau ynglŷn ag atebolrwydd cynyddol, a'r angen i gyrraedd safonau ansawdd o ran gofynion deddfwriaethol.

“Rhaid i’r hyfforddiant gaiff ei ddarparu ar bob cam o’r prosiect fod o ansawdd uchel. Mae’n rhaid iddo fod yn stwff da”

2.2 Hyrwyddo’r cyfleoedd dysgu

Nid yw’n glir o’r ymchwil hwn pa mor effeithiol yw’r gweithgareddau marchnata i hyrwyddo’r cyrsiau gaiff eu cynnig o ran cyrraedd y rheiny allai fod yn gymwys i fynychu. Gofynnwyd y cwestiwn i fudiadau *‘sut ydych chi’n hyrwyddo eich cyfleoedd hyfforddi?’* a chafwyd yr atebion canlynol. Roedd atebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn. Mae’r ffigurau’n dangos sawl gwaith y nodwyd y gweithgaredd penodol gan atebwyr.

Ffigur 9 Math o weithgareddau a ddefnyddir i hyrwyddo cyrsiau sector Gwirfoddol a Chymunedol



O’r atebion hyn, mae’n amlwg fod amrywiaeth eang o ddulliau yn cael eu defnyddio i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi. Y rhai mwyaf poblogaidd yw yn fewnol ac ar air. Roedd y dulliau eraill a nodwyd yn cynnwys radio lleol, posteri, digwyddiadau, a chylchlythyron. Nodwyd rhwydweithiau ar sawl achlysur hefyd. Gan nad oes yna staff un pwrpas yn hyrwyddo a/neu ddarparu hyfforddiant yn mwyafrif yr achosion yn y sector, nid yw’n syndod taw hyrwyddo mewnol ac ar air gaiff eu defnyddio’n fwyaf aml yn ddulliau costeffeithiol o hyrwyddo cyfleoedd.

Lle mae ehangu mynediad tu hwnt i staff a gwirfoddolwyr y mudiad yn fater blaenllaw, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol archwilio dulliau marchnata eraill, ac mae rhwydwaith PAVS ei hun yn cynnig ffordd werthfawr o gyrraedd cynulleidfa bosibl ehangach ar gyfer cyfleoedd dysgu penodol.

2.3 Hyfforddiant Achrededig

Gofynnwyd i fudiadau pa un ai yw’r hyfforddiant maen nhw’n ei ddarparu wedi’i achredu ai peidio, ac os na, a fyddai hynny’n rhywbeth y gallai fod ganddynt ddiddordeb ei gynnig yn y dyfodol.

Gofynnwyd dau gwestiwn ynglŷn â hyfforddiant achrededig yn yr holiadur llinell isaf fel a ganlyn:

‘Oes rhywfaint o’ch hyfforddiant chi wedi’i achredu? Os na, ydi hyn yn rhywbeth yr hoffech chi ei gynnig yn y dyfodol?’

O’r 28 mudiad a atebodd sydd yn ddarparwyr hyfforddiant, mae ychydig o dan hanner (43%) yn darparu rhyw fath o ddysgu achrededig. O’r mudiadau sydd ddim yn darparu dysgu achrededig ar hyn o bryd, mae gan un allan o dri ddiddordeb mewn cynnig hyn yn y dyfodol.

2.4 Dulliau darparu hyfforddiant

Gofynnwyd i fudiadau yn yr holiadur pa fath o ddulliau maent yn eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant. Rhoddwyd rhai esiamplau yn y cwestiwn megis yn y dosbarth, ar-lein, un i un, a dysgu trwy wneud. Roedd atebwyr yn gallu rhoi sawl ateb.
Mae'r atebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu bod mwyafrif y mudiadau yn darparu hyfforddiant gan ddefnyddio mwy nag un dull. Y dull gaiff ei ddefnyddio'n fwyaf cyffredin yw'r dosbarth (50% o'r mudiadau atebodd) yna hyfforddiant un i un (29%), gweithdai (25%), dysgu trwy wneud (25%), ac hyfforddiant ymarferol, gweithredol (21%). Atebodd un deg pedwar y cant o fudiadau sy'n cynnig hyfforddiant eu bod yn defnyddio dysgu ar-lein.

2.5 Darpariaeth wedi'u gynllunio wnaeth ddim digwydd

Gofynwyd i fudiadau oedd yna unrhyw hyfforddiant yr oeddent wedi bwriadu eu ddarparu, ond oedd heb ddigwydd, a'r rhesymau dros hynny. Nododd 43% (12) o fudiadau bod achosion wedi bod lle doedden nhw ddim wedi gallu mynd ymlaen gyda darpariaeth oedd wedi'i gynllunio. Ym mwyafrif yr achosion, roedd hyn naill ai oherwydd diffyg cyfranogwyr (50%) neu ddiffyg cyllid (42%).

2.6 Cynllunio darpariaeth hyfforddi

Roedd cyfweliadau a gynhaliwyd gyda thri deg o fudiadau yn archwilio materion yn ymwneud â chynllunio'u darpariaeth hyfforddi a'r math o ffactorau allanol a all ddylanwadu ar gynlluniau presennol ac yn y dyfodol.

Beth sy'n eich helpu chi i gynllunio eich darpariaeth, a beth sy'n mynd o'r ffordd?

y gynulleidfa (y grŵp cleient) a deall anghenion presennol ac anghenion newidiol. Roedd bod yn ymatebol i ddefnyddwyr yn hanfodol bwysig, ac roedd gan llawer o fudiadau gyfeiriad a chenhadaeth strategol clir sydd yn cyfeirio'u gweithgareddau, er enghraifft gweithio gyda phobl hŷn, neu ofalwyr.

"Mae rhoi dewis iddyn nhw yn eu grymuso nhw – rydym ni'n cael ein harwain gan y defnyddiwr"

Adroddwyd fod ariannu yn allweddol o ran cynllunio darpariaeth gan ei fod yn rhoi cyfleoedd i gynnal hyfforddiant na fyddai'n bosib fel arall, a defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes (o fewn ac oddi allan i'r sector Gwirfoddol a Chymunedol) hefyd yn helpu gyda chynllunio.

"Hyfforddiant yw'r hyn ydym ni'n ei wneud … mae'n ddarpariaeth graidd. Mae'r mudiad yn… cael ei ysgogi wrth gyflenwi'r gefnogaeth honno"

O ran pethau sy'n mynd o'r ffordd wrth gynllunio darpariaeth, nid oedd yn syndod fod adnoddau yn dod ar ben rhestr y rhan fwyaf o fudiadau. Roedd prinder adnoddau, o ran staff un pwrpas ar gyfer datblygu a darparu hyfforddiant, yn fater amlwg, yn ogystal â phwysau parhaol i ddod o hyd i adnoddau dim ond er mwyn galluogi'r mudiad i weithredu. Er y nodwyd rhwydweithiau yn rhywbeth positif o ran helpu i gynllunio darpariaeth, roedd nifer o fudiadau hefyd yn teimlo bod rhain yn gallu rhwystro cynnydd ar brydiau oherwydd diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth gyfrannol – gyda'r posibiliadau i rwydweithio a gwella darpariaeth yn cael eu cyfyngu o bosib gan agendâu pobl eraill.
Roedd teimlad cryf fod ariannu yn rhy aml yn cyfeirio darpariaeth yn hytrach na'r ffordd arall, gan wrthdaro'n uniongyrchol â'r union beth sy'n helpu i gynllunio darpariaeth – sef cael eich arwain gan y defnyddiwr.

"Y gwasanaeth ddylai gyfeirio'r ariannu, ac nid y ffordd arall"

Mewn nifer o achosion, cododd fudiadau bryder ynghylch hyrwyddo'u cyrsiau yn rhy eang rhag ofn y byddai'n codi gormod o ddiddordeb a bod yna wedyn ddim gallu digonol i ymateb. Nodwyd hefyd hygyrchedd a fforddiadwyedd lleoliadau allanol yn ffactor all lesteirio cynllunio darpariaeth.

Codwyd nifer o faterion unigol mewn perthynas â chynllunio darpariaeth, oedd yn cynnwys:

- yr angen i gynnal asesiadau risg lle roedd gweithgareddau awyr agored yn digwydd (byddai rhai o'r rhain yn ddibynnol ar y tywydd ac felly ddim yn gallu digwydd bob tro)
- fod disgwyliadau isel ar gyfer pobl ag anableddau a'r teimlad eu bod nhw heb eu grymuso ac weithiau'n anodd mynd i'r afael â nhw oherwydd hunanganfyddiadau negyddol neu brofiadau drwg yn y gorffennol
- anawsterau cadw gwirfoddolwyr

Nododd sesiwn ffocws y Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant (gweler Atodiad 5) nifer o faterion tebyg i'r rheiny yn y cyfweliadau, gan gynnwys cyllid ac adnoddau yn gymorth ac yn rhwystr, pwysigrwydd adnabod y grŵp cleient, ac hefyd diffyg lleoliadau fforddiadwy a hygyrch. At hynny, nodwyd pwysigrwydd gwybod pa hyfforddiant arall oedd yn cael ei ddarparu mewn man arall, yr angen i gyfnerthu ac adnabod sgiliau ac anghenion o fewn y sector, ac i sicrhau fod gwybodaeth gaiff ei lledaenu yn cyrraedd y bobl iawn.

Beth yw'r dylanwadau allanol all gael effaith ar yr hyfforddiant rydych chi'n ei ddarparu nawr ac yn y dyfodol?

Enwyd dau ddeg tri o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a/neu newidiadau statudol sydd yn cael effaith uniongyrchol neu allai gael effaith bosibl ar ddarpariaeth y dyfodol. Roedd enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Deddf Diogelu'r Amgylchedd, a MIDAS (yn gysylltiedig â Thrafnidiaeth Gymunedol). Gallai newidiadau deddfwriaethol gael effaith bositif neu negyddol ar ddarpariaeth, er enghraifft i rai, mae yna gyfleoedd newydd i ddarparu hyfforddiant er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn cadw'u gwybodaeth yn gyfredol o ran gofynion cyfreithiol perthnasol, ond i eraill, mae deddfwriaeth mewn perthynas â thrwyddedau adloniant cyhoeddus, er enghraifft, wedi golygu na all mudiadau bellach gynnal digwyddiadau er mwyn codi arian a ddefnyddir i ddarparu eu hyfforddiant. Soniwyd yn aml hefyd am newidiadau mewn costau mewn perthynas ag yswiriant, a materion cyfreithiol iechyd a diogelwch.

"Mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch … yn golygu fod yn rhaid i chi wneud cymaint o hyfforddiant…mae'n effeithio ar bopeth… mae'n rhaid i chi fod yn gymaint mwy diwyd"

Roedd y mwyafrif o fudiadau yn nodi ariannu'n ddylanwad allanol allweddol nid yn unig ar ddarpariaeth y dyfodol, ond hefyd ar allu'r mudiad i 'wneud i bethau ddigwydd' a symud pethau ymlaen.

"Ariannu – mae hwnnw'n effeithio'r holl beth … rydym ni wastad yn bowndio o un lle i'r llall. Mae anniogelwch ariannol yn rhwystro cynllunio hirdymor"

Er fod sawl mudiad gyda Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn teimlo fod rhain yn cael eu gweld yn bositif gyn belled â bod yr angen am ddarpariaeth wedi'i gydnabod a'i ariannu, roedd yna ddiffyg cefnogaeth mwy cyffredinol yn aml. Teimlwyd y gallai agweddau mudiadau allanol tuag at y sector (mewn rhai achosion y teimlad eu bod yn cael eu gweld fel 'perthynas tlawd') gael effaith bositif a negyddol ar annog cyfranogi yn y ddarpariaeth.

Codwyd nifer o faterion unigol megis diffyg hyfforddwyr neu siaradwyr dwyieithog; y ffaith fod un mudiad wedi'i leoli mewn adeilad sydd â phrydles hir ac mae hyn yn rhwystr iddyn nhw gael mynediad i ariannu; ac yn achos un darparwr, fe all ymgynghoriad allanol sy'n digwydd ar hyn o bryd ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy effeithio ar sut gaiff hyn ei integreiddio a'i ddarparu.

Nododd dau fudiad fod partneriaethau cynllunio strategol y sir yn chwarae rhan allweddol mewn dylanwadu ar gyfeiriad darpariaeth i'r dyfodol.

Eto, nododd sesiwn grŵp ffocws TAG faterion tebyg megis ariannu, canfyddiadau eraill, ond nodwyd hefyd ymhlith pethau eraill, fod ffocws presennol yr ariannu, sydd ar ddysgu er mwyn lleihau anweithgarwch economaidd gan arwain at ganlyniadau achrededig, yn digwydd ar draul ariannu ar gyfer dysgu anffurfiol.

2.7 Newidiadau sylweddol arfaethedig i'r ddarpariaeth

Gofynnodd yr holiadur llinell isaf y cwestiwn *'Ydych chi'n cynllunio unrhyw newidiadau sylweddol i'r hyfforddiant rydych chi'n ei ddarparu ar hyn o bryd?* Rhoddwyd enghreifftiau yn y cwestiwn o'r hyn gaiff ei olygu gan newidiadau sylweddol – cynyddu neu leihau darpariaeth, cytundebau trydydd parti, neu gynnig achrediad.

Atebodd 57% o'r mudiadau wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn nad ydyn nhw'n cynllunio unrhyw newidiadau sylweddol i'w darpariaeth bresennol.

Ymhelaethwyd ar y cwestiwn (lle roedd yn addas ac yn bosib) yn y cyfweliadau, gyda'r cwestiwn:

Os ydych chi'n cynllunio newidiadau sylweddol i'ch darpariaeth, beth yw'r rhain a beth yw'r materion sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn?

Ar gyfer y mwyafrif o fudiadau a gyfwelwyd, nid oedd yna gynlluniau i wneud newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu hefyd yn y cwestiwn ar y dudalen ganlynol, sy'n archwilio pa fath o ddarpariaeth maen nhw eisiau bod yn ei gynnig yn y dyfodol.

Roedd y rheiny wnaeth nodi newidiadau yn nodi meysydd megis ehangu i gymunedau ehangach megis Cymunedau'n Gyntaf (3 mudiad), a chynlluniau i gynyddu a chadw'r nifer o wirfoddolwyr (2 fudiad).

Roedd cynlluniau unigol yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau lleol megis Coleg Sir Benfro a'r Gwasanaeth Prawf, newid mewn ffocws ar hyfforddiant gofal cymunedol, a datblygu prosiect Garddwriaeth.

Roedd y prif faterion oedd yn gysylltiedig â'r holl newidiadau hyn yn ymwneud â'r angen i hyfforddiant ddod yn hunangynhaliol ac archwilio opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm. Roedd yna beth ansicrwydd ynglŷn â chyfuno cwangos megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac ELWa gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2006

Pa fath o ddarpariaeth ydych chi eisiau bod yn ei gynnig yn y dyfodol?

Atebodd mwyafrif y mudiadau y bydden nhw'n dymuno cynnig mwy o'r un peth, a gwella ar hyn. Nododd eraill y bydden nhw'n hoffi cynnig dysgu achrededig a chodi safonau ansawdd eu darpariaeth, er roedd un mudiad yn arbennig o negyddol ynglŷn â hyn, gan ddweud

"Mae adnoddau'n cael eu gwastraffu oherwydd yr obsesiwn gydag achredu – y cynnwys, ac nid y cymhwyster, sy'n bwysig"

Dywedodd sawl mudiad y bydden nhw'n hoffi ymgymryd â mwy o ddarpariaeth ar sail 'gwaith maes', gweithio'n fwy lleol, gan gynnwys ardaloedd penodol megis Cymunedau'n Gyntaf ac ardaloedd difreintiedig eraill, neu'n benodol yn Ne'r sir.

Roedd gan rhai mudiadau gynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth mewn ymateb i gyfleoedd yn deillio o newid mewn deddfwriaeth a/neu agendâu cymdeithasol, er enghraifft ehangu i feysydd megis byw iach neu faetheg. I rai, roedd hyn yn rhywbeth yr oedden nhw'n ymgeisio tuag ato, tra i eraill, roedd ariannu eisoes wedi'u ddiogelu am 2 neu 3 blynedd bellach fyddai'n rhoi'r cyfle iddyn nhw ehangu.

Roedd cynlluniau penodol i fudiadau unigol yn cynnwys mwy o hyfforddiant adeiladu hyder a hunan-barch, mwy o weithgareddau cymdeithasol a difyrrwch, gweithgareddau i ddenu mwy o aelodau ifainc, ac hyfforddiant trwyddedu mewn perthynas â thrafnidiaeth gymunedol.

Teimlai un mudiad y byddai eu cynlluniau am y dyfodol yn dibynnu'n rhannol ar sut oedden nhw'n gallu cael mewnbwn i bartneriaethau cynllunio strategol o fewn y sir, a chysylltu gyda strategaethau megis y Cynllun Cymunedol; fodd bynnag, ar hyn o bryd, ychydig iawn o allu oedd yna i'r mudiad fod ynghlwm â hyn, os o gwbl. Un mudiad yn unig wnaeth roi ateb negyddol iawn i'r cwestiwn hwn gan awgrymu eu bod yn teimlo fod eu darpariaeth hyfforddiant yn *'mynd yn ôl ac nid ymlaen'*.

Nododd TAG hefyd ansawdd uchel a darpariaeth achrededig fel materion ar gyfer y dyfodol. Hefyd, nodwyd mwy o gyfleoedd gwaith maes a chyfleoedd wedi'u seilio'n lleol, yn ogystal ag hyfforddiant cost isel wedi'i ddarparu mewn amgylchedd braf, gyffyrddus, i ffwrdd o'r dosbarth, gyda chefnogaeth ac amser i gymryd teithio a gofal egwyl i ystyriaeth.

Beth sydd wedi dylanwadu ar hyn neu beth fydd yn gwneud?

Mynegodd bob mudiad wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn fod ariannu yn ddylanwad mawr ar symud ymlaen â'u cynlluniau. Fe fynegon nhw hefyd yr angen am fwy o feddwl cydgysylltiedig a chydweithio ar draws y sector ac yn allanol, er mwyn cael dull mwy cyd-drefnus o ddarparu, ac y byddai darpariaeth lwyddiannus yn ddibynnol ar alw. Teimlai llawer y byddai'n rhaid iddynt wneud yn siŵr bod sgiliau'r staff ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant yn addas, gydag un mudiad yn mynegi eu bod yn edrych ar achredu perfformiad eu staff.

Gofynnwyd i'r sesiwn grŵp ffocws TAG ystyried ffyrdd y gellid gwella rôl y sector fel darparwr hyfforddiant. Fe nodon nhw'r meysydd canlynol:

- Gwneud y mwyaf o'r adnoddau sy'n bodoli eisoes
- Deall pa adnoddau eraill sydd ar gael i'r sector a chael mynediad i'r rhain
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth am ddarparwyr, lleoliadau ac hyfforddwyr
- Diffinio dull ar gyfer darparu sy'n gyflenwol ac nid yn gystadleuol - adnabod a phrisio gwahaniaethau mewn arddull a thechneg sy'n benodol i'r sector
- Cyrraedd safonau Sicrhau Ansawdd uchel

2.8 Casgliadau am y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel darparwr hyfforddiant

Mae'r adran hon wedi ystyried ystod eang o faterion ynglŷn ag hyfforddiant a ddarperir gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol.

Mae'n glir bod mwyafrif yr hyfforddiant sydd wedi'i gynnwys yn yr ymchwil hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chenhadaeth a gweithgareddau'r mudiad sy'n cynnig yr hyfforddiant. Yn ogystal â helpu i gryfhau cyfraniad uniongyrchol y mudiad i ddatblygiad a chyfoethogiad y cymunedau (e.e. daearyddol, neu o ran maes diddordeb) y maent yn gweithio ynddynt, mae gan yr hyfforddiant hwn fanteision ychwanegol o ran codi lefelau hyder a chymhwysedd dysgwyr unigol, a sbarduno galw am gyfleoedd dysgu.

Mae llawer o'r ddarpariaeth hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflawni dau o'r blaenoriaethau allweddol gaiff eu nodi o fewn y Cynllun Cymunedol ar gyfer Sir Benfro[4]. Mae blaenoriaeth D1 *'Annog Pobl i gyrraedd eu Potensial'* yn datgan amcanion tymor hirach o 'annog pobl i wneud y mwyaf o'u potensial drwy ddysgu a meithrin sgiliau newydd; rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl er mwyn iddynt allu wneud defnydd effeithiol o TGCh drwy ddysgu wedi'i leoli yn y gymuned; ac ehangu cyfranogiad mewn dysgu gydol oes o fewn grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol'. Bydd cynnydd tuag at gyflawni'r blaenoriaeth allweddol hwn hefyd yn helpu i gyfrannu tuag at flaenoriaeth D2 *'Hyrwyddo Lles Iechyd'*, bydd darpariaeth cyfleoedd dysgu sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag iechyd a lles, er enghraifft ym meysydd iechyd, ymarfer corff a maethiad yn amlwg yn cael effaith uniongyrchol, ond hefyd unrhyw fenter sy'n helpu i ddatblygu ymdeimlad o hunan-barch unigol a chymunedol a mynediad i gyfleoedd addysgol a chyflogaeth gwell yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae lefel y ddarpariaeth o gyfleoedd dysgu gan y sector yn iach, hyd yn oed os nad yw wedi'i dosbarthu'n gyson, ac yn sicr mae yna nifer o ddarparwyr hyfforddi craidd sy'n debygol o barhau i gynnig hyfforddiant, ac mewn nifer sylweddol o achosion sydd am ehangu eu lefel bresennol o weithgaredd ac ehangu mynediad i'r cyfleoedd dysgu maent yn eu darparu. Gyda chwarter yr atebwyr yn mynegi ei bod yn fwriad ganddynt ddechrau gweithgareddau hyfforddi yn y dyfodol, a 28% a 35% yn mynegi twf mewn lefelau staff neu wirfoddolwyr yn eu tro (a llai na 4% yn rhagweld unrhyw ostyngiad mewn lefelau staffio neu wirfoddolwyr), mae'n sicr yn rhesymol tybio y bydd y sector yn parhau i dyfu ac yn parhau i fod yn ddarparwr pwysig o gyfleoedd dysgu oedolion ac yn y gymuned o fewn y sir.

Ymddengys fod darpariaeth hyfforddiant yn cael ei arwain i raddau helaeth gan y defnyddiwr, gan ymateb i anghenion wrth iddyn nhw godi, gydag hyfforddiant cyson wedi'i drefnu o flaen llaw yn rhan llai o'r ddarpariaeth; fodd bynnag, mae yna lefel o ddiddordeb mewn darparu cyfleoedd dysgu achrededig yn y dyfodol.

Roedd pedwar deg y cant o hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol, 30% mewn lleoliadau cymunedol lleol. Cododd nifer o atebwyr y diffyg o leoliadau allanol fforddiadwy ac hygyrch fel rhwystr i gynllunio darpariaeth, a gellid ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu lleoliadau arbenigol ar gyfer hyfforddiant, traws-sector ac sy'n hygyrch yn lleol yn ffordd o hwyluso'r math o ddarpariaeth traws-sector, wedi'i gynllunio'n strategol gaiff ei ystyried mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Gellid gwneud cyfraniad tuag at gyrraedd cynaladwyedd ar gyfer mentrau o'r fath drwy agor adnoddau hyfforddiant mudiadau i fudiadau a darparwyr eraill a thrwy'r incwm fyddai'n cael ei gynhyrchu gan hyn.

Mae angen i unrhyw ystyriaeth o ddulliau i hwyluso darpariaeth hyfforddi gydnabod pwysigrwydd darparu cyfleoedd ac amgylcheddau hyfforddi sydd ddim yn fygythiol yn y drefn bresennol. Gall

[4] Cynllun Cymunedol Sir Benfro 2003/08, Partneriaeth Cynllun Cymunedol ac Arweinyddiaeth Sir Benfro, Hydref 2003

amgylchedd ac hyfforddwyr mewnol, cyfarwydd, helpu i adeiladu hyder, a goresgyn profiadau a disgwyliadau negyddol blaenorol, sy'n gallu creu rhwystr i ddysgu i lawer o bobl.

Nodir yn yr arolwg bod tua 44% o'r ddarpariaeth yn cael ei ddarparu gan staff a/neu wirfoddolwyr ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi cronfa dda o sgiliau y gellir ei defnyddio, ond mae'n dal i adael o leiaf 25% pellach y gellir ei nodi sydd yn ddibynnol ar hyfforddwyr allanol. Nodir yn benodol fod hyfforddwyr allanol yn ddrud, ac awgryma hyn efallai fod yna sgôp pellach i ddatblygu sgiliau hyfforddi yn fewnol, tra'n cydnabod y buddion y gall arbenigwyr allanol ddod â nhw. Er mwyn gwneud y mwyaf o hyfforddiant mewnol presennol, mae yna hefyd angen canfod ffyrdd o gefnogi'r bobl sy'n darparu'r hyfforddiant yn well (fel arfer mae hyfforddiant yn rhan ychwanegol o'u gwaith pob dydd), a ffyrdd o wneud yn siŵr fod dulliau sicrhau ansawdd yn gefnogol ac yn gwella hyder a gallu'r hyfforddwyr mewnol.

Mae llawer o gynnwys darpariaeth hyfforddi bresennol yn y sector allai fod o fudd i gynulleidfa ehangach, a bydd ehangu'r ddarpariaeth, a ragwelir ac a gynllunir gan nifer o fudiadau, yn gofyn am dechnegau marchnata costeffeithiol er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r cyfleon a'r buddiannau mae hyn yn ei gyflwyno i fudiadau a dysgwyr posibl. Yn hyn o beth, mae angen gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleusterau cyfathrebu a hwyluso gaiff eu cynnig gan PAVS gyda'u gorchwyl ar draws y sir, i gyrraedd cynulleidfa ehangach, ac mae pwnc gweithio mewn partneriaeth, a drafodir ymhellach yn adran 6, yn berthnasol o ran agor llinellau cyfathrebu rhwng partneriaid, gan wneud rhannu gwybodaeth am gyfleoedd dysgu yn fwy effeithiol. Mae Porth Addysg Sir Benfro (a drafodir yn adran 5.3) yn ffordd arall o gyrraedd grŵp ehangach o ddysgwyr presennol a phosibl.

Fel nodwyd uchod, caiff dros hanner y cyrsiau o fewn y sector eu rhedeg yn ôl y galw ac nid yw'r mwyafrif yn derbyn unrhyw gyllid craidd ar gyfer gweithgareddau. Mae hyn yn codi'r mater o gynaliadwyedd hyfforddiant rheolaidd lle caiff hyn ei adnabod fel angen – mae ffïoedd cwrs yn un ffordd o ariannu hyfforddiant, ond nid pawb sy'n gallu fforddio'r ffïoedd hyn, yn enwedig os ydyn nhw'n gwirfoddoli. Dengys ymchwil ehangach[5] fod hyn yn fater amlwg nid yn unig yn Sir Benfro ond ar draws Cymru gyfan lle mae mudiadau wedi nodi diffyg cyllid craidd, ac yn gynyddol, bod ariannu ynghlwm wrth brosiectau, yn sialensiau allweddol sydd raid mynd i'r afael â nhw.

Mae'n debyg mai deddfwriaeth, a'r fframwaith ar gyfer ariannu cyfleoedd dysgu oedolion ac yn y gymuned, fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddarpariaeth y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol fod darparwyr yn ystyried ffyrdd y bydd deddfwriaeth yn effeithio ar ddarpariaeth y dyfodol (yn bositif ac yn negyddol), a sut bydd dysgwyr, lle bo'n addas, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau o'r fath. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd mudiadau'n gweithio gyda'i gilydd yn rhagweithiol er mwyn dadlau dros gael ariannu strategol i gwrdd ag anghenion dysgwyr. Bydd cynlluniau[6] i gyflwyno system decach ar gyfer pob darparwr yn gynyddol dros nifer o flynyddoedd, ac i symleiddio darparu adnoddau ar gyfer dysgu ôl-16, yn cefnogi parch cydradd ymysg darparwyr.

[5] Sgiliau Sector Gwirfoddol Cymru, WCVA 2005
[6] System Gynllunio a Chyllido Genedlaethol, ELWa, www.elwa.org.uk

3. Y Sector Gwirfoddol a Chymunedol fel cyfranogwr mewn darpariaeth DOG

Mae'r adran hon yn archwilio rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel cyfranogwr mewn darpariaeth dysgu Oedolion ac yn y Gymuned, gan nodi meysydd lle gall fod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, meysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant yn y presennol ac yn y dyfodol, a ffactorau allanol a all ddylanwadu ar anghenion hyfforddi yn y dyfodol. Archwilir hefyd hyfforddiant sy'n cael ei gyrchu y tu allan i'r sir er mwyn deall y ffactorau all fod yn berthnasol i fudiadau wedi'i lleoli yn Sir Benfro gael mynediad i hyfforddiant yn y ffordd yma.

3.1 Bylchau mewn darpariaeth

Nododd 29% o fudiadau yn yr holiadur llinell isaf ei bod hi'n ymddangos fod eu anghenion hyfforddi a dysgu presennol yn cael eu diwallu. Ni wnaeth 44% ymateb i'r cwestiwn hwn, a gellir dehongli hyn fel arwydd o leiaf nad oes gennyn nhw unrhyw argyhoeddiad nad yw eu anghenion nhw'n cael eu diwallu.

Fodd bynnag, nododd dau ddeg saith y cant o fudiadau fod ganddynt anghenion hyfforddi sydd ddim yn cael eu diwallu. Nododd yr atebwyr 18 o feysydd hyfforddi a dysgu oedden nhw'n teimlo oedd eu hangen ac nad oeddent ar gael. O'r wybodaeth ar fapio darpariaeth, o fewn y sector ond hefyd ar draws Sir Benfro yn Dysgu a Choleg Sir Benfro[7], mae nifer o'r meysydd hyn, megis iechyd a diogelwch, TG, codi arian, a PowerPoint eisoes yn cael eu darparu gan fudiadau sector gwirfoddol eraill neu ddarparwyr eraill o fewn y Sir. Awgryma hyn y byddai un system wybodaeth sydd ar gael i bob dysgwr presennol a phosibl ac sy'n manylu cyfleoedd ar draws y sir yn fanteisiol dros ben.

Roedd meysydd eraill a nodwyd bod eu hangen yn cynnwys y rheiny sy'n benodol i'r maes y mae'r mudiad yn gweithio ynddo, megis amddiffyn plant, neu gynorthwyo teithwyr, yn ogystal â phynciau sy'n benodol i fudiadau gwirfoddol megis recriwtio gwirfoddolwyr, ymddiriedolaeth, datblygu menter cymdeithasol, a chodi arian.

Ym mha feysydd deimlwch chi fod yna fylchau mewn darpariaeth hyfforddi ar gyfer eich mudiad a/neu sector a/neu'r sector gwirfoddol yn gyffredinol?

Gofynnwyd y cwestiwn hwn yn y cyfweliadau er mwyn canfod ychydig mwy am lle roedd y mudiadau'n teimlo fod yna fylchau mewn darpariaeth a sut oedd y bylchau hyn wedi cael eu hadnabod.

Roedd ychydig dros draean y mudiadau gymerodd rhan yn nodi bod eu anghenion nhw wedi'u diwallu'n dda o ran darpariaeth gyffredinol - *"Mae darpariaeth dda ar gael i ni"* oedd yr ateb poblogaidd. Nodwyd nifer o feysydd arbenigol nad oedd ar gael yn lleol, megis y rheiny sy'n ymwneud â marchnata celfyddydau neu drafnidiaeth gymunedol, er cydnabuwyd ei bod hi'n annhebygol iawn y byddai cyfleoedd hyfforddiant ar gael yn y sir yn y dyfodol ar gyfer nifer fechan oherwydd eu natur arbenigol ac yn gyffredinol, derbyniwyd bod angen teithio i fynychu cyrsiau o'r fath (gweler y sylwadau isod parthed cyrchu hyfforddiant y tu allan i'r sir).

"Mae darpariaeth hyfforddiant wedi gwella'n sylweddol iawn mewn blynyddoedd diweddar"

[7] *The Learning Journey: a collaborative approach to adult and community based learning in Pembrokeshire*, Allman, Mawrth 2006

Roedd y meysydd arall a nodwyd yn adlewyrchu'r rheiny a gofnodwyd eisoes yn yr ymatebion i'r holiadur, megis hyfforddi ymddiriedolwyr, cymorth cyntaf, ac amddiffyn plant, yn ogystal â meysydd eraill penodol i'r sector gwirfoddol megis rheolaeth trydydd sector. Nodwyd TG Uwch yn benodol oherwydd teimlwyd bod llawer o'r cyrsiau TG sydd ar gael ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol ond bod ychydig iawn ar gyfer y dysgwr uwch. Nodwyd hefyd anghenion sgiliau sylfaenol ac yng nghyd-destun hyn, atebodd un mudiad *"Petai pobl yn cydnabod eu anghenion sgiliau sylfaenol, yna fe fyddai yna fwlch anferth mewn darpariaeth"*.

Drwy gyfarfod ffocws y Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol, adnabuwyd anghenion dysgu pellach ym meysydd:

- Datblygu Personol e.e. adeiladu hyder, sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu ayb.
- Deddfwriaeth e.e. cyfraith cyflogaeth, asesiadau risg
- Sgiliau goruchwylio (roedd mentora ac arweiniad anffurfiol hefyd yn rhan o hyn)
- Cymorth cyntaf a Codi a chario – rhad ac am ddim/cost isel
- Hyfforddiant arbenigol a all fod ar gael ymhellach i ffwrdd yn unig

3.2 Meysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddi presennol ac yn y dyfodol

Nodwyd ystod eang o feysydd blaenoriaeth presennol. Nid oedd yna un maes penodol oedd yn sefyll allan, er y nodwyd Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch, ac hyfforddiant Ymddiriedolwyr fwy na'r rhan fwyaf. Roedd mwyafrif yr anghenion hyfforddiant a nodwyd yn gysylltiedig â'r meysydd penodol y mae'r mudiad yn gweithio ynddo, e.e. y celfyddydau, trafnidiaeth, ieuenctid, gofalwyr, neu'n gysylltiedig â rhediad y mudiad, megis goruchwylio staff, codi arian, cynllunio ariannol.

Yn yr yn modd â'r ymateb i flaenoriaethau presennol, nid oedd yna un maes penodol oedd yn goruchafu meysydd blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Nodwyd Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol gan sawl mudiad, ac roedd gweddill yr atebion eto'n gysylltiedig â'r maes penodol y mae'r mudiad yn gweithio ynddo.

Beth yw'r materion allanol allai gael effaith ar y math o hyfforddiant fydd ei angen ar eich staff/gwirfoddolwyr/aelodau yn y dyfodol?

Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn y cyfweliadau yn debyg iawn i'r rheiny yn adran 2.6. Roedd mwyafrif yr atebion yn ymwneud â newidiadau mewn deddfwriaeth, a'r angen i bobl gael y wybodaeth ddiweddaraf. Nododd dau fudiad y byddai polisi llywodraeth yn effeithio ar anghenion yn y dyfodol, ac atebodd dau arall nad oedden nhw'n gwybod pa faterion allanol allai effeithio ar hyfforddiant yn y dyfodol. Dywedodd un mudiad nad oedden nhw'n credu fod yna unrhyw faterion allanol penodol allai effeithio ar anghenion yn y dyfodol.

O'r saith pwnc a nodwyd gan fudiadau unigol, roedd yna bedwar a allai gael effaith ar y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn ehangach. Dyma nhw:

- Cyfraith Cyflogaeth
- Lleoliadau – angen iddyn nhw fod yn wirioneddol hygyrch, a gallai hyn effeithio ar sgôp beth gaiff ei ddarparu a'i ddefnyddio
- Angen cynyddol i gael 'wyneb proffesiynol' i'r mudiad
- Ffasiynau newidiol o ran blaenoriaeth ariannu cyrff megis ELWa neu Lywodraeth Cynulliad Cymru

Y tri phwnc arall a nodwyd oedd argaeledd grantiau addysgol; ymgyrchoedd cenedlaethol; ac ymgynghoriad diweddar gan y llywodraeth ar hwyluso addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

3.3 Cyrchu cyfleoedd hyfforddiant y tu allan i Sir Benfro

Cyflwynwyd y cwestiwn yn yr holiadur llinell isaf fel a ganlyn:

"*Dywedwch wrthym am y gweithgareddau hyfforddi mae eich mudiad chi wedi eu cyrchu dros y flwyddyn ddiwethaf, os gwelwch yn dda"*

Mae Atodiad 7 yn dangos yr atebion roddwyd gan atebwyr i'r cwestiwn hwn. Ni wnaeth dau ddeg dau mudiad (45%) ymateb i'r cwestiwn hwn. Cofnodwyd chwe deg dau o wahanol ddigwyddiadau hyfforddiant, ac o'r rheiny roedd dau ddeg chwech (42%) wedi digwydd y tu allan i Sir Benfro, ac un ar ddeg (19%) y tu allan i Gymru.

Yna, ymhelaethwyd ar hyn yn y cyfweliadau gyda'r cwestiwn:

I ba raddau mae eich mudiad chi wedi cyrchu cyfleoedd hyfforddiant y tu allan i'r Sir? Beth oedd y prif resymau dros wneud hynny?

Mynegodd traean o'r mudiadau gymerodd rhan mai mynychu cyfleoedd hyfforddi y tu allan i'r sir oedd yr unig ffordd i gyrchu hyfforddiant arbenigol, wedi'i deilwra i'w anghenion penodol nhw. Mae hyn yn cyfateb â'r meysydd nodwyd mewn cwestiynau blaenorol ynghylch bylchau mewn darpariaeth ac anghenion hyfforddi presennol ac yn y dyfodol. Nododd bedwar mudiad y cyfle i rwydweithio gydag eraill yn yr un sector fel prif reswm dros fynychu digwyddiadau o'r fath.

O'r rhesymau unigol roddwyd dros fynychu cyfleoedd y tu allan i Sir Benfro, nododd chwech mai'r rheswm oedd er mwyn mynychu cynadleddau, ac roedd un mudiad, sydd â gorchwyl ar draws y sir gyfan, yn ei weld fel cyfrifoldeb i fynychu digwyddiadau rhanbarthol, yna rhaeadru'r wybodaeth yn lleol. Atebodd mudiad arall eu bod nhw'n mynd er mwyn cael cydbwysedd rhwng cysylltu â phobl broffesiynol brofiadol eraill a mynychu hyfforddiant lleol ond cyffredinol.

"Mae amser teithio yn bwyta i mewn i'r amser sydd ar gael – mae'r cyrsiau yno ond mae hygyrchedd yn fater pwysig yn yr ystyr lawn"

"Rydym ni'n derbyn y ffaith ein bod ni'n byw yng Nghymru ac y gallai hi fod yn anodd cyrraedd yno"

Amcangyfrifodd un mudiad fod tua tri deg y cant o'r cyrsiau maen nhw'n eu mynychu y tu allan i Sir Benfro, a chaiff y rhain eu cynnal yn bennaf gan y WCVA. Soniodd tri mudiad arall am eu presenoldeb ar gyrsiau WCVA, a gaiff eu cynnal yn gyffredinol mewn lleoliadau megis Llandrindod, Caerdydd, ac Aberhonddu.

Dim ond un mudiad ddywedodd nad ydyn nhw'n cyrchu cyfleoedd y tu allan i'r Sir *"bron o gwbl"*.

3.4 Casgliadau am y sector Gwirfoddol a Chymunedol fel cyfranogwr mewn darpariaeth DOG

"Mae'r sector mor amrywiol … allwch chi ddim cael model sy'n ffitio pob mudiad"

Ar y cyfan, fe ymddengys fod mwyafrif anghenion y sector yn cael eu diwallu gan y ddarpariaeth bresennol. Mae'r meysydd lle adnabuwyd bylchau yn bennaf yn gysylltiedig â phynciau sy'n benodol i'r meysydd y mae'r mudiadau yn gweithio ynddynt, yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â mudiadau gwirfoddol yn gyffredinol megis ymddiriedolaeth, menter cymunedol, codi arian.

Roedd rhai o'r lefelau uchaf o ymateb i'r cwestiwn yn holi pa feysydd sydd ddim yn cael eu diwallu yn gysylltiedig ag hyfforddiant sydd eisoes ar gael ar draws y sir, naill ai o fewn y sector neu drwy ddarparwyr eraill, ac roedd rhain yn cynnwys cyrsiau ar Iechyd a Diogelwch a TG. Awgryma hyn naill ai nad yw'r deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y cyfleoedd dysgu hyn yn cyrraedd y dysgwyr posibl hyn, neu nad ydyn nhw'n cael eu darparu ar adegau neu mewn lle sydd yn addas ar eu cyfer nhw. Gallai un system wybodaeth sydd ar gael i'r holl ddysgwyr presennol a phosibl, gan roi manylion am gyfleoedd ar draws y sir, fod yn eithriadol o fuddiol i'r perwyl hwn, a ffurfio elfen hanfodol o ddatblygu Rhwydwaith Ddysgu traws-sirol mewn partneriaeth â darparwyr y tu allan i'r sector yn ogystal ag o fewn iddo.

Roedd meysydd blaenoriaeth presennol ac ar gyfer y dyfodol yn debyg iawn, gyda Chymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch, ac hyfforddiant Ymddiriedolwyr yn cael eu cofnodi fwyaf aml, yn ogystal ag anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r meysydd penodol y mae'r mudiad yn gweithio ynddo, e.e. y celfyddydau, trafnidiaeth, ieuenctid, gofalwyr, neu'n gysylltiedig â rhedeg y mudiad, megis goruchwylio staff, codi arian, neu gynllunio ariannol.

Mae cyfranogiad mewn cyfleoedd hyfforddi'r tu allan i'r sir yn dal i gael ei weld fel angenrhaid ar gyfer nifer o'r mudiadau wnaeth ymateb i'r cwestiwn yma. Roedd 42% o'r digwyddiadau a fynychwyd y tu allan i'r sir, y prif rhesymau roddwyd dros fynychu'r digwyddiadau hyn oedd er mwyn cyrchu hyfforddiant arbenigol wedi'i deilwra i gwrdd ag anghenion penodol, neu er mwyn mynychu cynadleddau.

Mae'n amlwg fod y sector yn gyfranogwr gweithgar mewn cyfleoedd dysgu Oedolion ac yn y Gymuned. Mae modd categoreiddio i ba raddau mae yna angen 'sydd heb ei ddiwallu' ar gyfer y sector mewn un o ddwy ffordd:

Gan ystyried canlyniadau'r ymchwil i'r gymuned Dysgu Oedolion[8] yn ei chyfanrwydd a rhai o'r rhwystrau i ddysgu, mae'n rhesymol tybio bod y sector yn gallu wynebu rhai o'r rhwystrau cyffredinol hyn i gyrchu dysgu ar gyfer anghenion penodol, ar ffurf diffyg gwybodaeth am gyrsiau sydd ar gael, diffyg mynediad i leoliadau lleol hawdd eu cyrchu, neu ddiffyg mynediad i gyllid. Yn wir, mae ymchwil a wnaed yn flaenorol[9] yn nodi dysgwyr yn cael trafferth dod o hyd i pa wybodaeth sydd ar gael yn eu hardal nhw, ofn dychwelyd i sefyllfa dosbarth, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, a bod allan neu yn gyrru gyda'r nos yn ffactorau allweddol sy'n eu rhwystro rhag ymgymryd â gweithgareddau dysgu. O ran hyn, mae'r drafodaeth yn adran 6 ynghylch rôl y sector o ran cyfrannu tuag at ddatblygiad Rhwydwaith Ddysgu Sir Benfro yn berthnasol. Mae angen mynd i'r afael â'r cwestiynau ynglŷn â sut mae gwneud gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant ar gael yn ehangach, sut mae cynllunio darpariaeth er mwyn asio anghenion lleol gyda mynediad lleol, a sut mae diogelu arian strategol fydd yn gwneud y mwyaf o gydraddoldeb mynediad i gyfleoedd dysgu ar gyfer pob grŵp cymdeithasol a phob lefel incwm.

[8] *Adult Learning Survey 2005, Narrative report to accompany quantitative results*, Allman, Mawrth 2006
[9] *Lifelong Learning in Pembrokeshire for the over 50s*, Age Concern Sir Benfro, Mawrth 2005

Mae yna hefyd rai meysydd hyfforddiant penodol sydd eu hangen ond sydd wirioneddol ddim ar gael ar hyn o bryd o fewn y sir. Fel rhagflaenydd i ddatblygu Rhwydwaith Ddysgu, bydd adeiladu gwaith partneriaeth mwy effeithiol a chydlynu o fewn y sector ei hun yn bwysig wrth helpu i bennu rhinweddau, neu ddiffyg rhinweddau, a buddiannau cost, darparu mynediad i hyfforddiant o'r fath o fewn y sir. Lle mae budd amlwg yn parhau ar gyfer mudiadau drwy fynychu digwyddiadau megis cynadleddau a chyfleoedd dysgu eraill y tu allan i'r sir, mae potensial ar gyfer gwell rhwydweithio rhwng mudiadau ac unigolion sydd â diddordeb i ddatblygu system gynrychioli gylchdro fydd yn galluogi unigolion i rannu a chael gwybodaeth o'r digwyddiadau hyn a rhannu'r gost sydd ynghlwm wrth anfon unigolion i gynrychioli mudiad.

4. Adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr

Mae'r adran hon yn archwilio ystod y dulliau gaiff eu defnyddio mewn mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol er mwyn adnabod anghenion hyfforddi a dysgu eu staff, eu gwirfoddolwyr, aelodau ac ymddiriedolwyr. Rhoddir ystyriaeth i'r ffactorau all ddylanwadu ar brofiad dysgu positif, a thrafodir hefyd sut mae rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr.

4.1 Adnabod anghenion hyfforddi

Gofynwyd i'r rheiny gymerodd rhan yn yr holiadur *"Sut ydych chi'n adnabod anghenion hyfforddi eich staff a'ch gwirfoddolwyr?"* Roedd hi'n bosibl rhoi sawl ateb i'r cwestiwn hwn.

Ffigur 10 Dulliau o adnabod anghenion hyfforddi



Y dull gaiff ei ddefnyddio fwyaf aml i adnabod anghenion hyfforddi yw trwy gyfarfodydd, yna gwerthuso ffurfiol, ac yna trafodaeth. Defnyddir ystod o ddulliau eraill, gan gynnwys goruchwylio, a chynlluniau datblygu personol. Yn gyffredinol, fe ymddengys fod yna ryw ffurf o adnabod anghenion yn digwydd fel arfer mewn ffordd fwriadol, yn hytrach nag yn ad hoc (2%).

O ran cofnodi gwybodaeth gaiff ei ganfod drwy'r dulliau hyn, nododd ychydig o dan hanner (46%) y mudiadau wnaeth ymateb eu bod nhw'n cofnodi'r wybodaeth a gesglir.

Sut ydych chi wedi adnabod bylchau mewn hyfforddiant?

Nododd un rhan o chwech o fudiadau gymerodd rhan yn y cyfweliadau eu bod nhw'n ymgymryd ag arolwg llinell isaf o anghenion hyfforddi a/neu awdit sgiliau o fewn y mudiad. Roedd un rhan o chwech arall yn nodi eu bod nhw'n defnyddio ystod o fonitro mewnol ac allanol er mwyn adnabod anghenion, megis hunan-asesiad, neu ymgynghorwyr allanol. Nodwyd dulliau llai ffurfiol megis arsylwi a sgyrsiau gan nifer o fudiadau.

Roedd amlygu gofynion trefniadol, megis yr angen i rannu baich y cyfrifoldeb o ran lechyd a Diogelwch, neu i ddatblygu sgiliau o fewn y mudiad ym maes menter cymunedol er mwyn gallu cefnogi eraill yn well, er enghraifft, yn allweddol i helpu wrth amlinellu anghenion hyfforddi newydd.

Nododd sesiwn grŵp ffocws TAG ambell ddull tebyg i'r rheiny a fanylir uchod, ond nododd hefyd y materion canlynol:

- gofynnir am gyrsiau ar rai pynciau dro ar ôl tro ac maen nhw'n ordanysgrifiedig
- mae hyfforddiant ynghylch cyfraith cyflogaeth a rheoli personél yn feysydd twf oherwydd nifer cynyddol y staff gaiff eu cyflogi yn y sector
- caiff anghenion hyfforddi eu creu gan ofynion neu fentrau gan fudiadau cenedlaethol megis MIND, neu NIACE

4.2 Ystyriaeth o sut mae dysgwyr yn dysgu orau

Sut mae eich dysgwyr chi'n dysgu orau?

Nododd dros draean y mudiadau mai lleoliad yr hyfforddiant oedd yr allwedd i ddysgu llwyddiannus. Nododd atebwyr fod yn rhaid i ddysgwyr fod yn gyfarwydd â'r lleoliad, y dylai fod yn amgylchedd ddiogel, groesawgar, ac hefyd yn agos i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus.

"Mae lleoliad unrhyw hyfforddiant yn ffactor, yn enwedig gyda'r nos ac yn y gaeaf"

Roedd gofynion eraill ar gyfer profiad dysgu positif yn cynnwys anffurfioldeb, awyrgylch, perthynas dda gyda'r hyfforddwr, hiwmor, darparu lluniaeth, gallu dysgu ar gyflymdra ac adeg sy'n addas i'r dysgwr, a ffocws ar sgiliau mwy meddal megis hunan-barch, a bod y cyfan yn cael ei arwain gan y dysgwr.

"Awyrgylch… mae'n gallu cael dylanwad sylweddol ar sut mae pobl yn ymateb"

Roedd ffactorau a nodwyd gan fudiadau unigol yn cynnwys cyfleoedd oedd ddim yn ddibynnol ar gyfrifiadur, heb bwysau i gyflawni, gyda ffocws, gyda chanlyniadau pendant, cyfleoedd dysgu go iawn, a'r cyfle i gymdeithasu.

Nododd grŵp ffocws TAG anghenion tebyg i'r uchod, yn ogystal â'r angen am gyfleoedd dysgu hydrin ac ymarferol, yr angen i'r hyfforddwr allu darparu ar gyfer ystod eang o lefelau a gallu mewn unrhyw un grŵp, a bod y dysgwr yn glir am "pa fudd sydd yna iddyn nhw".

"Y person arall sy'n rhan o bethau – y tiwtor yw'r un all sicrhau canlyniad positif"

4.3 Rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr

Sut all gwybodaeth am anghenion dysgwyr gael ei rannu a gyda pwy?

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i'r cwestiwn hwn yn bositif, ac fe gydnabuwyd y gellid gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu ar hyn o bryd. Nododd nifer fechan o fudiadau eu bod nhw eisoes yn rhannu gwybodaeth gydag eraill i raddau, ac mewn rhai achosion enwyd mudiadau penodol y byddai aelodau'r sector yn fodlon rhannu eu gwybodaeth â nhw. Roedd rhain yn cynnwys PAVS, Coleg Sir Benfro, Sir Benfro Yn Dysgu, a PLANED.

"Nid yw'r rhannu anffurfiol yma'n ymestyn i'r awdurdod lleol, nac i'r coleg lleol, ond fe hoffwn i petai yn gwneud"

Dywedodd dau fudiad eu bod nhw'n hapus i rannu gyda mudiadau tebyg yn gweithio yn yr un maes sector, a theimlai un mudiad fod eu anghenion nhw'n arbenigol iawn, heb ffitio i mewn i'r rhan fwyaf o hyfforddiant wedi'i leoli'n lleol, felly roedden nhw'n ansicr ynghylch cysylltu â rhwydweithiau lleol.

Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch rhannu gwybodaeth a sicrhau fod ymatebion ystyrlon yn digwydd i anghenion dysgwyr.

"Rydym ni am i ymatebion ystyrlon a phriodol i anghenion gael eu hadnabod … mae angen i ni rannu ein gwybodaeth gyda phobl o'r un meddwl – pobl sy'n parchu ac yn deall y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau"

Ystyriodd grŵp ffocws TAG yn fwy manwl ddulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac adnabuwyd:

- Defnyddio arf cynllunio canolog sy'n hawdd ei ddefnyddio, yn hygyrch, ac yn isel ei gost. Rhoddwyd enghraifft, sef yr arf mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) gaiff ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Lleol.

- CCET (*Community Consortia for Education and Training*) sy'n gweithredu ar lefel macro ond a allai ddefnyddio'r grŵp TAG yn fwy effeithiol.

- Rhannu cronfa ddata fewnol

Roeddent hefyd yn teimlo y dylai arianwyr gael mwy o wybodaeth am anghenion dysgwyr, ac y gellid adeiladu ar y dulliau Dadansoddi Anghenion Hyfforddi sy'n bodoli eisoes a'u rhannu'n ehangach ar draws y sector. Byddai creu "pecynnau" o hyfforddiant gyda darparwyr eraill yn fuddiol, a rhannu gwybodaeth gyda grwpiau eraill 'o'r un meddwl' trwy PAVS a/neu TAG.

4.4 Casgliadau am adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr

Mae'n galonogol fod mwyafrif y mudiadau gymerodd rhan yn yr ymchwil yma yn ymgymryd â rhyw fath o adnabod anghenion dysgwyr mewn ffordd fwriadol drwy amrywiaeth eang o ddulliau. Fodd bynnag, gydag ychydig o dan hanner yn cofnodi'r wybodaeth, mae hwn yn faes sydd angen cryn sylw er mwyn galluogi datblygiad protocolau ymarferol a safonol ar gyfer cofnodi a rhannu anghenion sydd wedi'u hadnabod os oes dull mwy strategol a chyd-drefnus o gynllunio i gwrdd ag anghenion dysgwyr i fod.

Ochr yn ochr â dulliau ffurfiol o adnabod anghenion megis awdit sgiliau neu hunan-asesiad, defnyddir ystod o ddulliau llai ffurfiol megis arsylwi a sgyrsiau, gan adlewyrchu'r ffordd y caiff dulliau eu defnyddio er mwyn cwrdd ag anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr megis staff, gwirfoddolwyr, neu aelodau yn y modd mwyaf addas.

Cafwyd rhai ymatebion diddorol i'r archwilio ynghylch beth sy'n helpu dysgwyr i ddysgu orau, yn enwedig ynglŷn â lleoliad yr hyfforddiant, a nodwyd gan fwy na traean y mudiadau gymerodd rhan fel un o'r elfennau allweddol ar gyfer dysgu llwyddiannus. Mae hyn yn cyfateb yn uniongyrchol gyda'r data ynghylch lleoliad yr hyfforddiant a ddarperir gan y sector, h.y. yn bennaf yn fewnol neu mewn lleoliad cymunedol, y mae dysgwyr yn gyfarwydd ag ef, a lle mae yna amgylchedd anfygythiol a chroesawgar.

Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan ynghylch rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr, gyda rhai mudiadau yn nodi fod hynny'n digwydd eisoes i raddau. Croesawyd gwella a datblygu'r dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag ystod o syniadau yn cael eu cynnig. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynghylch sicrhau fod unrhyw ymgais i gwrdd â'r anghenion hyn yn ystyrlon ar gyfer grwpiau cleient penodol, ac yn cymryd i ystyriaeth eu disgwyliadau, profiadau, a chyd-destun diwylliannol penodol. Mae'n ddiddorol nodi yma yr ymatebion i'r ddogfen *Voluntary and Community sector Infrastructure Consultation*[10] a ddangosodd ar y cyfan fod atebwyr yn deall yr achos dros gydweithio agosach ond fod yna bryder ynglŷn â hyn yn arwain at fudiadau yn cael llai o hyblygrwydd ac awtonomiaeth ar lefel leol. Fodd bynnag, caiff y cydnabyddiaeth bod angen i'r sector barhau i chwarae rôl allweddol mewn gweithgareddau ac i rannu gwybodaeth ag eraill ei adlewyrchu yn y dyfyniad yma gan yr Is-ysgrifennydd Seneddol Fiona Mactaggart:

"Os yw'r sector gwirfoddol a chymunedol am ffynnu a chwarae ei rôl mewn cyflawni gweledigaeth ganolog o ddiwygio ac adnewyddu, mae angen gwasanaethau cefnogi sydd o ansawdd uchel ac sy'n gynaliadwy. Rhaid i fudiadau hefyd allu gyfathrebu barn ac anghenion y bobl maen nhw'n eu gwasanaethu ac y maen nhw'n cynrychioli eu buddiannau.

[10] *Voluntary and Community sector Infrastructure Consultation document, ACU Home Office*, Medi 2003

5. Adnabod a pheilota dulliau newydd o ddarparu

Yng nghyd-destun yr ariannu minimal sydd ar gael ar gyfer cyrsiau heb achrediad, a chan ymchwilio'n fanylach y dulliau darparu priodol ar gyfer dysgu mewn lleoliad cymunedol, nodwyd nifer o gynlluniau peilot fel a amlinellir isod, lle'r bwriad oedd cael gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall dysgwyr elwa o drefniadau llai ffurfiol, a'r potensial i'r rhain asio gyda'r hyn gaiff ei gynnig gan y brif ffrwd.

Oherwydd cyfyngderau amser wrth gyflawni'r agwedd hon o'r ymchwil, penderfynwyd adnabod meysydd ar gyfer peilota a gwerthuso o ddatganiadau o ddiddordeb oedd wedi'u derbyn eisoes drwy gyfarfodydd blaenorol o'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol.

Roedd y tri maes peilot a adnabuwyd yn cynnig dulliau gwahanol iawn o ddysgu, fel a ganlyn:

- *Learning for Living* – gyda ffocws ar ddarparu dysgu ar-lein i ofalwyr di-dâl.

- *Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's* – cyfle i unigolion ddod ynghyd, ac adnabod a threfnu gweithgareddau er mwyn cwrdd â'u anghenion dysgu.

- *Porth Addysg Sir Benfro* – archwilio potensial porth ar y we i gefnogi dysgu rhyngweithiol a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Mae arolwg byr o bob cynllun peilot isod, ynghyd â chrynodeb o'r materion allweddol i'w hystyried ar ddiwedd yr adran hon. Cynhwysir dadansoddiad mwy manwl o bob cynllun peilot yn Atodiadau 8, 9, a 10 ynghyd â gwybodaeth ar bersonél allweddol i gysylltu â nhw am drafodaeth bellach.

5.1 Learning for Living

Amcan y model hwn yw dapraru mynediad hyblyg i ddysgu a chefnogaeth reolaidd i ofalwyr di-dâl, gan felly chwalu nifer o'r rhwystrau allweddol i ddysgu a nodwyd ganddyn nhw, megis peidio gallu mynychu cyrsiau strwythuredig oherwydd ymrwymiadau gofal, cost hyfforddiant, a diffyg trafnidiaeth ar gael er mwyn mynychu canolfan hyfforddiant. Gobeithiwyd hefyd y gellir mynd i'r afael â materion eraill, llai diriaethol megis hunan-barch isel, diffyg hyder, a theimlo'n unig.

Wrth galon y model dysgu mae cwrs ar-lein, wedi'i achredu gan City and Guilds ac a gaiff ei ddisgrifio ganddyn nhw fel "…rhaglen ddysgu ar-lein ar gyfer gofalwyr. Mae'n adeiladu ar y sgiliau mae gofalwyr a chyn-ofalwyr wedi'u datblygu yn eu rolau gofalu. Mae hefyd yn helpu i adeiladu hyder a datblygu sgiliau cyfrifiadurol, a gallai baratoi'r ffordd ar gyfer astudio pellach neu ddychwelyd i swydd â thâl."

Mae dwy elfen graidd i'r rhaglen, sef cymhwyster Lefel 2 – Tystysgrif mewn Datblygu Personol a Dysgu ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, ac adnodd dysgu ar-lein.

Gweithio mewn partneriaeth
Adnabod partner darparu oedd yr angen dechreuol, ond daeth yn amlwg hefyd fod potensial sylweddol i nifer o fudiadau a/neu brosiectau eraill gymeryd rhan ac ychwanegu gwerth i'r profiad ehangach ar gyfer y dysgwyr. Yr hyn sydd wedi bod yn allwedd i lwyddiant y model hwn yw adnabod cyfranwyr a'u cryfderau unigol. Adnabuwyd a chymerodd cyfanswm o 5 partner a/neu brosiect ran.

Cefnogaeth i ddysgwyr
Er bod dysgwyr yn cael eu cofrestru gyda City and Guilds am gyfnod o ddwy flynedd, rhedodd y cynllun peilot gwreiddiol dros gyfnod o bedwar mis ac anogwyd dysgwyr i weithio i'r ffrâm amser yma, lle'n bosibl. Roedd cefnogaeth bellach ar gael ac er mai dysgu ar-lein oedd y prif gyfrwng dysgu, roedd sesiynau dewisol wedi'u harwain gan diwtor ar gael hefyd, yn ogystal â chefnogaeth TG i wella sgiliau TG sylfaenol, a mentora ar ffurf cyfoedion (gofalwyr oedd wedi cyflawni'r cwrs yn llwyddiannus eu hunain ac oedd yn fodlon gweithredu ar sail wirfoddol yn fentoriaid ar gyfer dysgwyr y dyfodol).

Ariannu ac adnoddau
ELWa oedd y brif ffynhonnell ariannu ar gyfer darparu'r cynllun peilot yma, wedi'i sicrhau gan y partner darparu, Coleg Sir Benfro. Talwyd am y gefnogaeth ychwanegol oddi wrth bartneriaid eraill drwy gronfeydd prosiect megis Amcan 1 ERDF, ESF, Rhaglen Codi Pontydd Cryfion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r Gronfa Loteri Fawr. Caiff y broses mentora cyfoedion ei rhedeg yn wirfoddol, ac nid oes cost i ddysgwyr.

Gwerthuso a Chrynodeb
Mae adborth oddi wrth dysgwyr a phartneriaid fel ei gilydd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Cwblhaodd dri dysgwr y cwrs yn llwyddiannus, ac mae gan ddau ddysgwr un modiwl pellach i'w gwblhau. Mae eraill yn gallu parhau gyda'u dysgu oherwydd natur hyblyg iawn y cyrsiau ar-lein.

Er fod y cynllun peilot yn llwyddiannus, mae'n profi'n anodd denu dysgwyr newydd, ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r partneriaid fynd i'r afael ag ef. Mae pump o ddysgwyr newydd wedi dechrau'r cwrs, sydd bellach yn cael ei ddarparu i ofalwyr yng Ngheredigion hefyd er nad yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn rhan o'r bartneriaeth ar hyn o bryd.

Mae'r model wedi bod yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau, gan dynnu ar gryfderau pob un er mwyn adeiladu isadeiledd hyfforddi a chefnogi cynaliadwy sy'n ateb anghenion grŵp penodol o ddysgwyr. Er fod y cwrs hwn wedi'i anelu at un grŵp penodol o bobl, sef gofalwyr di-dâl (ac mae tua 14,000 dim ond yn Sir Benfro), mae'n amlwg fod yna'r potensial i ddatblygu'r dechneg hon ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n profi rhwystrau tebyg i ddysgu,

megis rheiny ag anableddau, rhieni sengl sy'n gweithio ayb. Dau argymhelliad allweddol ddaw allan o'r gwaith yma yw peilota'r model dysgu sydd â'i ganolbwynt yn gyrsiau ar-lein amgen ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr, a datblygu modiwl e-Ddysgu Sgiliau Astudio sydd yn benodol yn addas ar gyfer y rheiny gydag ychydig neu ddim profiad TG.

Am wybodaeth fwy manwl ar y model *Learning for Living*, a phwy i gysylltu â nhw er mwyn dysgu mwy, gweler Atodiad 8 os gwelwch yn dda.

5.2 Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's

Bwriad y cynllun peilot hwn oedd sefydlu 'clwb dysgu' o fewn Neuadd Gymunedol St John's lle mae unigolion yn dod at ei gilydd drwy sesiwn ymgynghori gychwynnol er mwyn adnabod a chynllunio gweithgareddau sy'n cwrdd â'r anghenion dysgu y maen nhw'n dymuno'u diwallu.

Rhoddwyd gwahoddiad i dri deg saith o bobl i fynychu a dangoswyd llawer o ddiddordeb, er dim ond naw o gyfranogwyr oedd yna ar y diwrnod. Gweithiodd y sesiwn ar sefydlu meysydd o ddiddordeb cyffredin, a thrwy broses o drafod mewn grŵp gan ddefnyddio set o ganllawiau wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer y cynllun peilot yma, cyrhaeddwyd consensws ar bedwar maes dysgu yr oeddent am eu harchwilio. Yn y diwedd, oherwydd cyfyngderau amser, dim ond dau o'r pedwar maes a weithredwyd, ond roedd y ddau yma'n llwyddiannus iawn. Roedd hi hefyd yn angenrheidiol agor y sesiynau i aelodau o'r cyhoedd er mwyn sicrhau niferoedd digonol o gyfranogwyr.

Y ddau weithgaredd dysgu a wnaethpwyd oedd 'Cyflwyniad i Ddawns' a 'Sgiliau Coginio Sylfaenol'. Ceir manylion pellach am y rhain yn Atodiad 9.

Cefnogaeth i ddysgwyr
Y prif berson oedd ynglŷn â'r cynllun peilot hwn oedd y Swyddog Datblygu llawn amser sydd wedi'i leoli yn Neuadd y Gymuned. Chwaraeodd y swyddog yma rôl allweddol yn cefnogi'r dysgwyr o ran cyd-lynu'r gweithgareddau e.e. dod o hyd i diwtor, bwcio cyfleusterau, trefnu lluniaeth ayb. a theimlir ei bod hi'n angenrheidiol cael rhywun yn gweithredu fel arweinydd neu gyd-lynydd yng nghyfnodau cynnar a chyfnodau twf y model Clwb Dysgu.

Ariannu ac adnoddau
Adnabuwyd cyllideb fechan o hyd at £300 o'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd i gefnogi cynllun peilot y sesiwn Clwb Dysgu a'r gweithgareddau dysgu. Roedd yr arian yma'n cwrdd â chost tiwtoriaid, lluniaeth, deunydd cyhoeddusrwydd, a bwyd ar gyfer ei goginio. Nid oedd yr amser gymerwyd ar y cynllun peilot gan y Swyddog Datblygu (gaiff ei ariannu'n rhannol ar hyn o bryd trwy ERDF) wedi'i gostio nac wedi'i dalu ar wahân, gan fod y cynllun peilot yn cael ei ystyried yn rhan o'u rôl bresennol o ddatblygu gweithgareddau dysgu yn y Neuadd. Yn y diwedd, dim ond £133.00 oedd cyfanswm holl gostau'r ymarfer hwn. Roedd hyn yn rhannol oherwydd fod y Tiwtor Coginio wedi mynnu gwneud y darn yma o waith ar sail wirfoddol.

Gwerthuso a Chrynodeb
Gwerthuswyd y sesiwn clwb dysgu a'r gweithgareddau dilynol ac ar y cyfan, roedden nhw'n llwyddiant gwirioneddol. O ran y sesiwn clwb dysgu, roedd cyfranogwyr wedi mwynhau'r profiad a'r trafodaethau. Roedden nhw i gyd yn teimlo bod amcanion y sesiwn wedi'u cwrdd, ond roedden nhw'n cydnabod y byddai'r holl broses wedi bod yn haws ac wedi gweithio'n well petai yna wedi bod mwy o gyfranogwyr. Mynegon nhw y bydden nhw'n hoffi gweld Clwb Dysgu'n cael ei ffurfio, ac y bydden nhw'n fodlon talu tanysgrifiad bychan, fodd bynnag, roeddent yn teimlo y gallai Clwb o'r fath ddim ond gweithio gyda lleiafswm o dyweder 30 o aelodau, ac roedden nhw'n ansicr a fyddai'n gallu bod yn gynaliadwy heb ariannu allanol o ryw fath.

Er fod y cyfranogwyr oedd yn rhan o'r sesiwn wedi mynd i'r afael yn gadarnhaol â'r gweithgareddau ynglŷn â darganfod meysydd o ddiddordeb cyffredinol, cydnabyddir bod angen gwneud gwaith pellach i gefnogi aelodau wrth adeiladu eu hyder ac adnabod eu cryfderau. Wrth i hyn ddigwydd, ac wrth i nifer yr aelodau dyfu, teimlir y bydd y model yn esblygu i ddarparu isadeiledd y gellir ei ddefnyddio i adnabod a chynllunio ystod eang o weithgareddau. Mae angen archwilio ystod eang o opsiynau ynghylch sut gall y model gael ei gynnal, a byddai'n fuddiol siarad gyda chynrychiolwyr o Brifysgol y Drydedd Oes (BDO) am sut mae eu model nhw'n gweithio.

Mae'r gwersi dawnsio sy'n mynd ymlaen bellach yn hunangynhaliol gan fod cyfranogwyr yn gwneud cyfraniad i gwrdd â chost y tiwtor, ac mae nhw'n dod â'u lluniaeth eu hunain (nid oes tâl am ddefnyddio'r neuadd gymunedol). Bydd y gwersi hyn yn gallu parhau cyn belled â bod yna niferoedd digonol o ddysgwyr yn mynychu i gwrdd â chostau'r tiwtoriaid. Gobeithir y bydd y sgiliau a ddysgwyd gan y cyfranogwyr yn y gwersi coginio yn cael eu pasio ymlaen yn y dyfodol i ffrindiau eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, gan ddefnyddio'u ceginau a chynnyrch eu hunain.

Mae'n amlwg fod angen person allweddol i gydlynu gweithgareddau, gan sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng aelodau a bod cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth (e.e. iechyd a diogelwch) lle fo'n berthnasol. Mae hyn yn rhan o'r rhwydwaith sydd ei angen er mwyn sicrhau fod pethau yn symud ymlaen, ond dros amser gobeithir y bydd dibyniaeth ar berson o'r fath yn lleihau. Gall ethos Clwb Dysgu lle nad oes pwysau i gyflawni, a lle mae'n berffaith iawn i 'ddod a rhoi cynnig arni' ddarparu profiad dysgu positif (fel a dystiolaethir gan y ddau weithgaredd dysgu beilotwyd yma) ac arwain o bosibl at gyfleoedd eraill i fynd â'r dysgu hwnnw ymhellach gyda darparwyr eraill yn y dyfodol, wrth i hyder y dysgwr dyfu. Gyda chefnogaeth, megis person ar ben draw llinell ffôn, a allai gymryd peth o'r cyfrifoldeb am helpu i symud rhwystrau a darparu anogaeth, mae dysgwyr yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel wrth iddyn nhw fynd ymlaen ar eu taith.

Am wybodaeth fwy manwl ar gynllun peilot Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's, gwelwch Atodiad 9 os gwelwch yn dda.

5.3 Porth Addysg Sir Benfro (PASB)

Disgrifir Porth Addysg Sir Benfro fel *"casgliad ar-lein o wefannau, wedi'u rhoi gyda'i gilydd mewn un man er mwyn creu rhwydwaith o wybodaeth a phobl i gefnogi gweithgareddau ar gyfer dysgwyr a dysgu"*. Mae'n darparu fforwm i athrawon a dysgwyr fel ei gilydd i rannu adnoddau, cydweithio a chyfathrebu. Cyngor Sir Benfro yw'r prif bartner yn y prosiect, gan ddarparu'r isadeiledd technolegol datblygol, cymorth technegol, ac hyfforddiant. Yn dilyn cynllun peilot a redwyd mewn ysgolion yn y sir, mae'r porth yn cael ei ehangu i bartneriaeth ehangach, sy'n cynnwys y Sector Gwirfoddol a Chymunedol.

Mynegodd aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Sector Gwirfoddol (TAG) ddiddordeb mewn archwilio potensial y porth i gefnogi gwaith y mudiadau gwirfoddol yn eu rôl fel darparwyr hyfforddiant, a hefyd y cyfleoedd y gallai eu cynnig o ran cydweithio a rhannu adnoddau ar draws y gwahanol sectorau. Trefnwyd dwy sesiwn gyda Mike Isted o'r Cyngor Sir i edrych ar y materion hyn, gydag awdur yr adroddiad hwn hefyd yn mynychu.

Mae'n amlwg o'r ddwy sesiwn yma fod yna botensial sylweddol i'r porth fod yn arf amhrisiadwy ar gyfer y sector mewn nifer o ffyrdd:

- Yn gyntaf, mae yna fan cyhoeddus gyda mynediad agored fydd yn darparu pwynt canolog ar gyfer gwybodaeth am gyfleoedd dysgu, darparwyr hyfforddi, cyngor a gwybodaeth gyrfaoedd. Mae potensial i hyn hefyd gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli a bydd yn darparu 'ffenest siop' ar gyfer popeth sydd gan y sector gwirfoddol i'w gynnig i ddysgwyr presennol a dysgwyr posibl yn y sir.

- Yn ail, ar gyfer dysgwyr presennol, mae yna'r potensial i gael mynediad i ffurfiau mwy arloesol o gyfleoedd ac adnoddau dysgu megis datblygu portffolios wedi'u lleoli ar y we a chofnodion cyrhaeddiad, cefnogaeth tiwtor ar-lein, dysgu gyda chyfoedion ar-lein, ffilm fideo a llawer mwy. Mae hyn, wrth gwrs, yn ddibynnol ar fod gan y sector y sgiliau a'r amser i allu datblygu'r fath adnoddau ond mae'r isadeiledd cefnogol yno.

- Yn drydydd, mae yna botensial sylweddol ar gyfer rhannu syniadau a deunyddiau dysgu, ymgymryd â gwaith cydweithredol ar draws y sector ac hefyd gyda darparwyr hyfforddiant eraill megis tiwtoriaid cymunedol, y coleg lleol, darparwyr hyfforddiant preifat ayb. Byddai rhannu arfer da ac arbenigedd o fudd aruthrol i'r sector ond hefyd i ddarparwyr eraill yn nhermau deall yr arfer da a lefelau sgiliau a gwybodaeth o fewn y sector ei hun y gallant gael mynediad iddynt.

Ariannu ac Adnoddau
Hyd yn hyn, mae datblygiad y porth wedi'i ariannu drwy amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cyllid addysg ganolog, ELWa (Y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd), a chyllid Ewropeaidd Amcan 1. Yn y tymor hirach, disgwylir y bydd tâl yn cael ei godi er mwyn galluogi gweithredu a datblygiad estynedig y porth. Er fod y tâl hwn eto i'w bennu, disgwylir, er enghraifft, y bydd ysgolion yn talu tua £3.50 fesul dysgwr y flwyddyn.

Gwerthuso a Chrynodeb
Ar y cyfan, roedd y gwerthusiad yn dilyn y ddwy sesiwn yn bositif iawn ac mae'r potensial ar gyfer dysgwyr a darparwyr yn glir. Mae'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn gallu elwa o'r buddsoddiad sylweddol sydd wedi'i wneud gan y sector statudol a dylid cymeradwyo'r hyfforddiant a'r cefnogaeth sydd wedi'u darparu hyd at hyn. Fodd bynnag, mae yna nifer o faterion sydd angen eu hystyried cyn y gellir cymryd mantais llawn o'r porth.

Yn gyntaf, mae angen ystyried sut bydd y ‘ffenest siop’ yn cael ei datblygu. Mae amrywiaeth y sector gymaint fel bod perygl iddo gael ei gyflwyno mewn ffordd sy’n drysu’r ymwelydd, ond eto, ychydig bwynt fyddai yna mewn ailgynhyrchu gwefannau sy’n gweithredu’n gyflawn eisoes.

Yn ail, o ran cefnogaeth i ddysgwyr, fe all fod yn angenrheidiol i wneud awdit sgiliau o fewn y mudiadau sy’n darparu (neu a allai ddarparu) cyfleoedd dysgu ar-lein ar draws y sector er mwyn nodi ystod y sgiliau a gwybodaeth ar gyfer datblygu’r math hyn o gyfleoedd ac hefyd darparu cefnogaeth diwtor ar-lein. Lle mae bylchau mewn sgiliau wedi’u hadnabod, fe all fod yn bosib cysylltu gyda, a dysgu oddi wrth ddarparwyr eraill sydd â’r profiad perthnasol ac felly gwella gallu’r sector i ddarparu yn y modd hwn. Fel nodwyd eisoes, bydd cost amser ynghlwm â datblygu adnoddau a dysgu sgiliau newydd. Mae angen penderfynu ar y gallu i glustnodi’r amser sydd ei angen ar hyn yng nghyd-destun i ba raddau y bydd yn cwrdd ag anghenion dysgwyr, gan gadw mewn cof nad dim ond rhywbeth yn lle dulliau arall o ddysgu yw dysgu ar-lein.

Yn drydedd, o ran cyfleoedd cydweithredu, cydnabyddir y gall fod yna fater i’w oroesi’n fan hyn ynghylch ymddiriedaeth a chyfrinachedd wrth weithio gyda darparwyr eraill a allai fod wedi’u gweld fel ‘cystadleuwyr’ yn flaenorol. Wrth i’r gwaith o gael gwared â’r hyn gaiff ei alw’n gystadleuaeth ‘ddiwerth’ barhau, a gyda phwyslais barhaol ar weithio cydweithredol er mwyn cyflawni amcanion ehangach o ran darpariaeth oedolion ac yn y gymuned, gobeithir y bydd y rhwystrau hyn, mewn amser, yn cwympo i lawr. Mae angen adeiladu lefelau hyder o fewn y sector Gwirfoddol a Chymunedol, efallai trwy weithio cydweithredol o fewn y sector ei hun i ddechrau, er y gellid ac y dylid adeiladu ar brofiadau cynlluniau peilot megis y model *Learning for Living*.

Er mwyn gwybod mwy am Borth Addysg Sir Benfro a phwy i gysylltu â nhw, gweler Atodiad 10 os gwelwch yn dda.

5.4 Casgliadau am adnabod a pheilota dulliau newydd o ddarparu

Mae'r tri maes a beilotwyd wedi rhoi cyfle gwych i archwilio gwahanol fathau o fodelau darparu. Mae sawl maes wedi'u hadnabod ar draws y cynlluniau peilot lle gallai un dull gyfannu dull arall. Er enghraifft, un o'r argymhellion allweddol i ddod o gynllun peilot *Learning for Living* oedd datblygu cyrsiau ar-lein amgen ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Fe ymddengys fod Porth Addysg Sir Benfro yn cynnig ei hun yn naturiol i'r math hwn o ddull a byddai hefyd yn cefnogi'r gwaith cydweithredol sydd ei angen rhwng partneriaid i wneud i hyn ddigwydd. Gallai'r Porth Addysg hefyd gefnogi'r model Clwb Dysgu lle mae dysgwyr yn gyfrifol am adnabod eu anghenion dysgu eu hunain a threfnu gweithgareddau i gwrdd â'r rhain. Gallai aelodau'r clwb gael mynediad i ardal cyhoeddus y 'ffenest siop' er mwyn canfod pa gyfleoedd allai fod ar gael iddynt ac hefyd er mwyn dysgu mwy am ddarparwyr hyfforddi addas i gysylltu â nhw os ydyn nhw'n methu dod o hyd i'r hyn maen nhw'n chwilio amdano.

Fe allai'r dulliau electroneg o gyfathrebu a gynigir gan y porth megis arolygon ar-lein, fforymau trafod ayb. gynnig dull effeithiol i aelodau gyfathrebu ar sail rheolaidd, a byddai'n fuddiol ymchwilio ymhellach i'r cyfraniad gall y technolegau newydd, yn enwedig y we, eu gwneud tuag at gynyddu dewis dysgwyr, cyfoeth a chyfleustra'r profiad dysgu, a hwyluso'r systemau dapraru integredig sy'n cynnwys pob darparwr.

Mae'r dull partneriaeth a ddefnyddiwyd er mwyn datblygu a darparu cefnogaeth ddysgu a chefnogaeth i ddysgwyr yn y model *Learning for Living* yn sicrhau fod pob partner yn ychwanegu gwerth i'r profiad ar gyfer y dysgwyr a bod y mwyaf yn cael ei wneud o adnoddau ar gyfer darpariaeth a chanlyniadau effeithiol, creadigol, a llwyddiannus. Ni ddylid anwybyddu'r cyfleoedd a gynigir gan y Porth Addysg ar gyfer cyfleoedd cydweithredu, er fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r materion a drafodwyd yn flaenorol ynghylch gallu'r sector a'r lefelau sgiliau i ymgymryd â hyn.

Mae'n glir o'r ddau gynllun peilot oedd yn cynnwys dysgwyr eu bod nhw wedi cael budd aruthrol o'r dull llai ffurfiol o ddysgu, ac roedd y ddau gynllun peilot yn tanlinellu buddiannau darparu cyfleoedd wedi'u harwain gan angen, lle gall dysgwyr ymgymryd yn y broses ddysgu drwy adnabod y canlyniadau dysgu dymunol a gweithio tuag atynt ar eu cyflymdra'u hunain. Mae nhw'n atgof amserol nad yw *'un maint yn ffitio pawb'*, ac yn y ddau achos mae'n hawdd gweld ffyrdd y gall y dysgu asio gyda darpariaeth prif ffrwd. Er enghraifft, mae gweithgareddau'r clwb dysgu yn darparu cyfle 'rhoi cynnig arni' i ddysgu rhywbeth newydd. Gallai unrhyw un sydd ag awydd mynd â'r dysgu yma ymhellach, er enghraifft ennill rhyw fath o achrediad, wneud hyn drwy ddarpariaeth y brif ffrwd, gyda'u hyder wedi'i gynyddu o'r sesiynau cychwynnol. Yn yr un modd, mae cynllun peilot *Learning for Living* wedi galluogi gofalwyr i fagu hyder a dysgu sgiliau newydd all gael eu cario ymlaen i gyfleoedd eraill na fydden nhw wedi eu hystyried fel arall o bosibl.

Mae'n anochel, lle mae ariannu ar gyfer cyfleoedd dysgu o'r fath yn dod o ffynonellau megis Cronfeydd Ewropeaidd neu gronfeydd prosiect tymor byr, y bydd y modd mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu cynnal yn y tymor hirach yn fater sy'n codi. Mae Estyn[11] wedi adnabod pryderon ynghylch yr angen am raglenni a phrosiectau cynaledig yn y tymor canol i'r tymor hirach er mwyn cwrdd â disgwyliadau a dyheadau dysgwyr, ac mae hi'n werth archwilio modelau hunangynhaliol megis cynllun peilot Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's yn ehangach fel modelau posibl ar gyfer darparu dysgu allai fod yn ddichonadwy.

.

[11] Lledaenu cyfranogiad mewn dysgu oedolion yn y gymuned: Arolwg o arfer gorau, Estyn, 21ain Mehefin 2004

6. Rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro

Fel nodwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, un o ganlyniadau craidd gwaith y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd sy'n digwydd ar draws y sir yw cynnig model Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro sydd yn 'addas ar gyfer y diben', sydd â chefnogaeth ei aelodau, sy'n gynaliadwy, gyda ffocws ar ansawdd, sy'n gwneud i ffwrdd â darpariaeth ddyblygol, sy'n cynnig arloesedd yn narpariaeth y dysgu ac sy'n darparu cefnogaeth briodol i bob cam o'r "siwrnai ddysgu".

Yn y cyd-destun hwn, gofynnwyd cwestiynau i fudiadau gymerodd rhan ynghylch sut oedden nhw'n gweld rôl y sector mewn Rhwydwaith Ddysgu o'r fath, beth oedd angen digwydd i hwyluso datblygiad Rhwydwaith Ddysgu effeithiol ac integredig o'r fath, ac ym mha ffyrdd gallai'r sector ddylanwadu ar ddarpariaeth hyfforddi er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr.

Roedd nifer o'r mudiadau gyfwelwyd yn ei gweld hi'n anodd ymateb i'r adran hon o'r cyfweliad gan eu bod nhw'n anghyfarwydd â'r cysyniad o Rwydwaith Ddysgu. Ni gymerodd un mudiad ran gan nad oedden nhw'n teimlo'u bod nhw'n gallu ateb y cwestiwn hyd yn oed i raddau llai. I'r perwyl hwn, mae'n anodd cyffredinoli atebion i'r adran hon, er fod yna rai themâu penodol yn ymddangos fydd yn cael eu tynnu at ei gilydd yn y diwedd.

Allwch chi adnabod ffyrdd y gallai rôl y Sector Gwirfoddol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro weithredu?

Teimlai ychydig o dan chwarter y mudiadau fod yna'n sicr dal rôl i'r sector fel darparwr hyfforddi, yn cynnig darpariaeth gyflenwol ond nid gystadleuol. Teimlai dwy ran o dair o'r mudiadau bod adnabod mudiadau unigol oedd yn y safle gorau i ddarparu hyfforddiant arbenigol yn bwysig, gan ddiffinio meysydd darpariaeth *niche* sy'n cydnabod y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad penodol sydd gan y sector. Dywedodd pedwar mudiad y gellid manteisio ar agosrwydd meysydd o fewn y sector i 'lawr gwlad' cymunedau buddiant penodol (e.e. yr anabl, yr henoed) drwy helpu darparwyr eraill i ddeall amrywiaeth anghenion dysgwyr yn well.

"Mae e i gyd i wneud â phartneriaeth – gweithio aml-asiantaeth, mewn partneriaeth, nid mewn cystadleuaeth. Mae'n rhaid i ni gadw i siarad, rhannu, a dod o hyd i'n niche ni"

Nododd dau fudiad y byddai sefydlu grwpiau cefnogi ar gyfer y sector mewn meysydd megis systemau sicrhau ansawdd yn fuddiol. Roedd rolau unigol eraill a nodwyd ar gyfer y sector yn cynnwys:

- Hyfforddi cyrff statudol
- Darparu ffynhonnell ganolog o wybodaeth am hyfforddiant
- Bod yn rhan o'r broses gynllunio strategol
- Sefydlu ystod o weithgorau er mwyn cynyddu effeithiolrwydd TAG a'r elfennau cyfansoddol

Beth sydd rhaid digwydd er mwyn cyflawni hyn?

Nododd hanner y mudiadau a gyfwelwyd yr angen am **rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol**. Roedd gweithio'n well mewn partneriaethau a chyfathrebu'n well, gan gynnwys o fewn y sector ei hun, yn ateb cyffredin, gydag atebwyr yn adnabod cyfleoedd positif i'w cael o welliannau yn y ddau faes yma, a gyda gweithio mewn partneriaeth go iawn yn digwydd. Nododd nifer fechan o fudiadau eu bod nhw eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau megis yr Awdurdod Lleol a/neu Goleg Sir Benfro trwy ddulliau ffurfiol (e.e. trefniadau trydydd parti) neu anffurfiol.

Nododd dros draean y mudiadau'r angen i'r sector gael **parch cydradd** gyda phartneriaid eraill, gydag awydd am gynrychiolaeth go iawn yn hytrach na phresenoldeb 'tocenistaidd'. Fodd bynnag, teimlai nifer o atebwyr nad oes gan y sector ei hun mo'r pŵer i ddod yn gydradd mewn Rhwydwaith Ddysgu.

Cododd sawl mudiad **adnabod a phrisio dysgu cymunedol** a dysgu anffurfiol yn ffactor allweddol i hyrwyddo gwerth cyfraniad y sector. Gallai ffocysu ar gryfderau'r sector, gan adeiladu ar ei brofiad o ddarparu dull hyblyg ac arloesol o ddysgu a chreu amgylcheddau dysgu hygyrch sydd yn wahanol i'r hyn gaiff ei gynnig gan y prif ffrwd, ac sydd eu hangen ar rai grwpiau cleient, chwarae rhan allweddol mewn dangos y cyfraniad unigryw mae'r sector yn ei wneud i batrwm ehangach darpariaeth dysgu oedolion ac yn y gymuned o fewn y sir.

"Weithiau mae'r hyn ydym ni'n ei wneud yn cael ei danbrisio"

"Fe fyddai hi'n anodd i wirfoddolwyr slotio i mewn i grwpiau hyfforddi eraill – mae gan rhwng ¼ a ½ anghenion iechyd meddwl a fydden nhw ddim yn gallu cael mynediad i hyfforddiant cyffredinol"

Nodwyd amrywiaeth ac ehangder y sector yn nodwedd bositif, ond hefyd yn rhwystr posibl i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Nodwyd hefyd yr angen am ddealltwriaeth o'r gwahanol ddiwylliannau sy'n gweithredu ar draws y gwahanol bartneriaid, ac mewn rhai achosion yr angen i fynd trwy newidiadau diwylliannol er mwyn galluogi gweithio ar y cyd. Nododd sawl mudiad yr angen i rannu cyfleoedd hyfforddi megis hyfforddiant gorfodol y sector gofal, neu hyfforddiant ar y cyd ar gyfer gweithwyr ieuenctid, rhwng partneriaid yn enghraifft o arferion gweithio cadarnhaol y gellid adeiladu arnynt.

"Nid un llais ydym ni. Rydym ni i gyd yn dod o gyfeiriad gwahanol ac efallai ei bod hi'n anodd peidio … ry'n ni mor amrywiol, mor wahanol, nid oes gennym ni i gyd fylchau anferth yn ein amser"

Nododd dros draean y mudiadau **adnoddau** megis ariannu, staff ac adeiladau yn hanfodol, gydag angen i adnoddau o'r fath gael eu canolbwyntio ar ddarparu'r hyfforddiant a gwasanaethau yn hytrach nac ar weinyddu.

"Mae'r ffaith nad oes gan y mudiad hyfforddwr yn hurt"

Byddai capasiti mwy yn darparu mwy o gyfleoedd i bobl fynychu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o Rwydwaith Ddysgu; nododd un mudiad yn arbennig eu bod nhw'n cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau ar draws y sir ond nad yw eu mewnbwn nhw gymaint ag y gallai fod oherwydd materion capasiti - *"Hoffwn i petae ni'n rhan fwy o'r broses gynllunio. Mae angen mwy o gynllunio strategol … angen iddo fod yn gynhwysol"*

Dywedodd nifer o'r mudiadau gymerodd rhan yn y cyfweliadau bod anawsterau gyda diffyg ariannu cynaliadwy, sy'n dueddol o fod yn dymor byr, wedi'i yrru gan brosiectau ac sydd ddim yn annog gweithio cydweithredol.

Materion amlwg eraill a nodwyd oedd:

- Ystyriaeth o sut gaiff rhaglenni hyfforddi eu llunio – yr angen i edrych ar ddulliau integredig o ddysgu gyda chyfleoedd yn cael eu harwain gan strategaeth ac nid ariannu.
- Eglurder.
- Cael mwy o bobl i fod yn rhan o bethau – ond mae angen mwy o gyswllt personol, i ymweld â mudiadau er mwyn gwneud i ffwrdd â'r pellter, ac o bosib cynnig rhyw fath o wobr neu gymhelliant am gymryd rhan.
- Dylai Rhwydwaith Ddysgu gadw'r ffocws ar ychydig brif flaenoriaethau megis ansawdd yr hyfforddi a sicrhau fod y rhwydwaith yn ateb y 'broblem' y'i sefydlwyd i ateb. Dylid adnabod dau neu dri maes pryder a chanolbwyntio ar y rheiny yn hytrach na *'dewis 12 blaenoriaeth a ffwdanu, heb gyrraedd unlle'.*
- Yr angen i egluro beth fydd amcanion Rhwydwaith Ddysgu.
- Cronfa ddata o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn annog gweithio ar y cyd
- Strwythur democrataidd wedi'i arwain gan PAVS gyda Memorandwm o Ddealltwriaeth
- Rhwydwaith fydd yn tynnu grwpiau cymunedol i mewn yn ogystal â grwpiau gwirfoddol
- Model wedi'i seilio ar bartneriaeth rwydweithio o bobl gyda gwerthoedd ac amcanion cyffredin
- Hyblygrwydd ac adnoddau i gwrdd ag anghenion wrth iddyn nhw godi
- Adnoddau i sicrhau rhwydwaith sydd yn cydnabod materion Iaith Gymraeg
- Fforymau wedi'u harwain gan y dysgwr

Ym mha ffyrdd all y sector gwirfoddol ddylanwadu ar y ffordd y mae hyfforddiant yn digwydd yn y dyfodol er mwyn cwrdd ag anghenion?

Nododd mudiadau yr angen i ddarparu tystiolaeth glir (nid dim ond anecdotaidd) o anghenion dysgwyr. Dylai'r anghenion hyn gael eu harwain gan y cleient ac nid y darparwr, a dylai gwybodaeth am anghenion hyfforddi sy'n ymddangos gael ei rannu'n ehangach. Soniwyd hefyd am awgrymiadau i barhau ymchwil i anghenion y sector, a gwerthuso ystyrlon a pharhaol o'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau fod anghenion y dyfodol yn cael eu diwallu.

"Mae ffurflenni adborth yn ddigalon iawn. Os oes dilyniant i bethau, yna mae nhw'n fuddiol"

Yng nghyd-destun parhau ymchwil, nodir yma fod dau fudiad yn amlwg yn amheus o'r ymchwil (o ran faint o ddylanwad fyddai'n ei gael ar benderfyniadau) ac hefyd o sefydlu rhwydwaith effeithlon a gwirioneddol gynrychiadol.

Nodwyd ei bod hi'n bwysig gwella ymgynghoriad, fel bod cyfraniad y sector i adeiladu Rhwydwaith Ddysgu yn cynnwys mwy o unigolion a mudiadau er mwyn sicrhau ei fod yn wirioneddol gynrychiadol. Ystyriwyd bod gwneud cyfraniad positif, ymarferol i'r rhwydwaith mewn meysydd megis darparu gwybodaeth, hyfforddi, hyfforddwyr ayb. yn hanfodol ar gyfer dylanwadu ar gynlluniau i'r dyfodol.

Ystyrir taw un o'r cyfraniadau arbennig y gall y sector ei wneud yw dapraru amgylchedd ddiogel y gellid arbrofi ynddo –

“gallai’r sector gwirfoddol newid pethau drwy ymarfer modelau’n weddol ddiogel o fewn y sector, arbrofi, gwneud pethau am y tro cyntaf, bod yn ddewr, gweld a ydyw e’n gweithio ond peidio poeni os nad yw e”.

Teimlwyd y gall y sector, a bod angen i’r sector, o gael ei ryddhau o rai o gyfyngiadau ariannu craidd a chyfyngiadau statudol sy’n rheoli darpariaeth hyfforddi prif ffrwd, fod yn fwy rhagweithiol a phendant, gan fanteisio ar ei gryfderau a’i fewnwelediad arbennig:

“Yr hyn mae’r sector gwirfoddol yn dda iawn am ei wneud yw delio gyda pethau sydd tu hwnt i’r cyffredin, trwy ddiffiniad, yr hyn na all y wladwriaeth ymdopi ag e – mae’n tyfu allan o angen – a dim ond tra bod yr angen yn parhau mae’n gallu goroesi – os yw sector y wladwriaeth yn gallu ymdopi, nid oes ein hangen ni”

“Dod â safbwynt gan bobl sydd ddim yn cael eu talu i wneud y gwaith. Mae yna nodwedd unigryw yn hyn – mae gan fudiadau gwirfoddol lawer i’w gynnig”

“Y sector gwirfoddol yw’r llawr gwlad – gyda gafael ar beth mae pobl ei eisiau” “Mae pobl yn gwybod ein hyd a’n lled ni ac yn ymddiried ynom ni”

Gwelwyd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ond gwelwyd hefyd fod yr angen i wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn ffactor allweddol er mwyn cyflawni hyn:

“Dydym ni ddim yn dda iawn am rannu pethau da”

“Dyw partneriaid ddim yn gwybod beth dydyn nhw ddim yn ei wybod – gadewch i ni ddangos iddyn nhw sut mae agor drysau”

Roedd y Cyngor Gwirfoddol Sirol (PAVS) yn cael ei weld gan nifer o gyfranogwyr fel hwylusydd allweddol posibl o ran datblygu’r diwylliant a’r arfer angenrheidiol o weithio mewn partneriaeth a helpu i gyrraedd rhyw lefel o gydweithrediad.

6.1 Canlyniadau o sesiwn grŵp ffocws TAG

Ystyriodd ail sesiwn grŵp ffocws TAG rôl y sector mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro. Gan ystyried yr anawsterau a brofwyd mewn nifer o’r cyfweliadau, penderfynwyd dechrau’r sesiwn drwy ganfod beth oedd y term ‘Rhwydwaith Ddysgu’ yn ei olygu i aelodau.

Soniwyd am rannu gweledigaeth a theimlad o bwrpas ac o berthyn, ynghyd â chyfleoedd i weithio gyda’i gilydd er mwyn osgoi dyblygiad, rhannu syniadau ac adnoddau, ac adeiladu ar arfer da. Nodwyd fod ‘Ymddiriedaeth’ yn air allweddol, a byddai rhwydwaith yn cael ei harwain gan y dysgwr, gan ddarparu fframwaith galluogi ar gyfer ehangu cyfranogiad mewn dysgu a dathlu cyraeddiadau.

Gofynnwyd i aelodau nodi pwy oedden nhw’n ei feddwl ddylai fod yn rhan o’r Rwydwaith Ddysgu, a beth oedden nhw’n ei ystyried oedd y meini prawf ar gyfer llwyddiant. Manylir yr atebion i’r diwethaf isod:

Meini prawf ar gyfer llwyddiant Rhwydwaith Ddysgu

Eglurder Cynnydd mewn cyfranogiad dysgu Y bobl a'r ymroddiad iawn Gwybodaeth gliriach Cyfeiriadur o bwy sy'n gwneud beth Gwefan/Bwrdd hysbysu – rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf Aelodaeth barhaol – ariannu Dal yma ymhen 5 mlynedd Gyrrwr allweddol er mwyn cynnal momentwm a chadw ar y trywydd Esiamplau go iawn o lle ddylanwadwyd ar bolisi Perchnogaeth gan y dysgwr – balchder Mynediad i arbenigwyr Dulliau cydgysylltiedig, cyd-drefnus

Yn olaf, rhoddwyd ystyriaeth i'r manteision i'r sector o gymryd rhan mewn Rhwydwaith Ddysgu. Nodwyd nifer o fanteision, gan gynnwys cynnydd posibl mewn gweithredu gwirfoddol a chymunedol, gwell ymwybyddiaeth ar draws y sir o gyfleoedd o fewn y sector, bod yn bartneriaid cydradd a dylanwadu ar benderfyniadau, a mwy o fynediad i adnoddau a gwybodaeth well.

6.2 Rôl y Sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydweithiau Dysgu eraill

Fel rhan o'r ymchwil hwn ac o'r ymchwil cydweithrediadol ehangach, ymchwiliwyd i ddwy Rwydwaith Ddysgu wahanol iawn sy'n gweithredu yng Nghymru. Ar gyfer yr adroddiad hwn, mae yna ffocws ar rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn y ddau, yn ogystal â phennu modelau arfer da ellid eu mabwysiadu ar gyfer y sector yn Sir Benfro.

Y ddwy Rwydwaith Ddysgu a ystyriwyd oedd:

- RISE – Rhwydwaith Ddysgu draws-sectorol sy'n ymestyn ar draws pum sir Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy, a Chasnewydd

- Rhwydwaith Ddysgu SIR GAERFYRDDIN – rhwydwaith wedi'i ariannu gan brosiect, sydd yn gweithredu trwy Sir Gaerfyrddin

Ceir yma arolwg byr o'r ddau fodel a rôl y sector, ond mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn Atodiadau 11 a 12.

6.3 RISE

Rhwydwaith ddysgu yw rise a ddatblygodd o ganlyniad i gau CORUS, ac yn dilyn arolwg a ddangosodd nad oedd gan 65% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn y pum sir unrhyw fwriad o gymryd rhan mewn unrhyw fath o ddysgu yn y dyfodol rhagweladwy. Mae diogelu dros £20 miliwn o gyllid Ewropeaidd wedi galluogi RISE i weithio tuag at ei amcanion o ddenu dysgwyr newydd, sefydlu rhwydwaith helaeth o ganolfannau dysgu wedi'u brandio, ac adeiladu sail partneriaeth gref. Mae dysgwyr yn chwarae rhan weithredol ar bob lefel ac ar bob cam drwy ystod o ddulliau o Hyrwyddwyr Dysgu i Fforymau Dysgu.

Y sector Gwirfoddol
Mae'r sector Gwirfoddol wedi chwarae rhan allweddol yn eu menter Hyrwyddwyr Dysgu. Mae'r hyrwyddwyr hyn yn hyrwyddo dysgu yn eu cymunedau lleol ac yn derbyn cefnogaeth hyfforddi gan gyrff sector gwirfoddol yn ogystal â Swyddogion Datblygu Dysgu. Maen nhw'n chwarae rôl allweddol mewn hyrwyddo dysgu a chefnogi'r agenda i gynyddu cyfranogiad. Wrth weithio tuag at yr agenda yma, mae cyraeddiadau hefyd wedi'u cyflawni mewn meysydd lle mae'r sector gwirfoddol a chymunedol wedi bod â rôl bwysig i'w chwarae, gan gynnwys:

- Gweithio ar lawr gwlad gyda grwpiau cymunedol ac unigolion
- Defnyddio'r iaith briodol drwy ddefnyddio grwpiau dysgu a grwpiau cymunedol lleol i werthuso deunydd hyrwyddo
- Defnyddio rhwydweithiau, grwpiau dysgu cymunedol newydd a fforymau
- Datblygu ystod o gyrsiau 'bachu' sydd yn arloesol, yn hwyl ac yn adeiladu ar beth mae'r dysgwr ei eisiau
- Darnau bychan o ddysgu sy'n hawdd eu trin heb ymrwymiad hirdymor, sy'n galluogi darpariaeth hyblyg

Gweithio mewn partneriaeth
Mae RISE wedi sefydlu strwythur sefydliadol 3-lefel (ceir manylion penodol ynghylch y strwythur yn Atodiad 11), ac maent wedi gweithio'n galed i gyflawni eu hamcanion parthed gweithio mewn partneriaeth. Roedd cytuno ar Weledigaeth ac Egwyddorion Allweddol craidd yn hollbwysig, a thrwy ymgynghori helaeth maen nhw wedi cyflawni'r datblygiadau mawr sy'n gysylltiedig â meysydd megis mentrau Cwricwlwm, strategaethau Ariannu a rhaglen Hyfforddi.

Sicrhau Ansawdd
Gall partneriaid elwa o ddatblygiad 'Fframwaith Arfer Da ac Ansawdd' lle gall materion datblygu dysgu lleol gael eu hystyried a'u hateb yn strategol, a sicrhau bod cyfleoedd dysgu ar gael sy'n hygyrch, deniadol, ac ymatebol.

Datblygwyd canllawiau ar gyfer Canolfannau Dysgu, Canolfannau Dysgu Trwy Wneud, a Chanolfannau Gweithle (tebyg i'r dull a ddefnyddir gan Learn Direct), lle mae gofyn i ddysgwyr gyrraedd safonau penodol cyn cael eu cynnwys yn y 'brand' RISE. Mae'r safonau hyn yn ffurfio rhan ganolog o'r broses sicrhau ansawdd ar gyfer meysydd allweddol megis cefnogaeth dysgwr a thiwtor, cysylltedd ayb. Caiff mudiadau gwirfoddol o fewn y meysydd eu cynrychioli ar y bartneriaeth RISE, ac maent yn cymryd rhan weithredol yn y Pwyllgorau Datblygu Dysgu, ac mae'r rheiny sydd yn dapraru hyfforddiant wedi cwrdd â safonau RISE ar gyfer darparu hyfforddiant.

Mae rôl y Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVC's) wedi bod yn bwysig i ddatblygiad menter gwirfoddolwyr Hyrwyddwyr Dysgu, ac mae defnydd safonau RARPA (*Recognising and Recording Performance and Achievement*) wedi'u gosod gan NIACE er mwyn mesur buddiannau a/neu ganlyniadau dysgu anffurfiol ac sydd ddim yn achrededig (a chaiff llawer o hyn ei gynnig trwy fudiadau gwirfoddol) wedi bod yn allweddol i ddatblygiad fframwaith ar gyfer dilyniant dysgwyr.

6.4 Rhwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin

Cododd Rhwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin o'r angen i ehangu cyfranogiad mewn Dysgu Gydol Oes adnabuwyd gan y Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant lleol (CCET). Roedd yna angen sicrhau bod darpariaeth ar gyfer y 'camau cyntaf tuag at ddysgu', a bod dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i fynd ymlaen i addysg a hyfforddiant ffurfiol, wedi'i achredu. Adnabuwyd hefyd angen clir iawn i gysylltu â dysgwyr oedd heb gyrchu addysg ôl-orfodol neu hyfforddiant yn ddiweddar a'r rheiny oedd efallai wedi cael profiadau dysgu negyddol, ac un o goliau'r rhwydwaith yn y cyfnod cyntaf oedd datblygu gallu darparwyr hyfforddi i ymateb yn fwy effeithiol i anghenion dysgu'r gymuned.

Diogelwyd arian cychwynnol drwy gronfeydd Ewropeaidd am ddwy flynedd hyd at 2005, ac mae arian ESF pellach nawr wedi'u diogelu ar gyfer ail gyfnod hyd at 2007.

Lleolir chwech o Fforymau Dysgu o gwmpas y chwech ardal ddaearyddol sydd wedi'u nodi eisoes at ddibenion Adfywio Cymunedol ac mae'r rhain yn dod â dysgwyr, darparwyr ac asiantaethau yn yr ardal ynghyd. Mae cynllun strategol ar gyfer darpariaeth yn cael ei ddatblygu drwy'r cyfarfodydd tymhorol, wedi'i seilio ar anghenion dysgwyr, a chaiff hwn yn ei dro ei fwydo i'r CCET lleol. Mae yna Swyddog Dysgu Cymunedol i fynd â'r prosiect yn ei flaen ymhob ardal yn ogystal â Swyddog Dysgu ar gyfer cyfnod cyntaf y rhwydwaith, a fu'n gweithio'n benodol gyda mudiadau sector gwirfoddol ar draws pob ardal.

Y Sector Gwirfoddol
Mae gan y sector Gwirfoddol rôl allweddol i'w chwarae yn y rhwydwaith. Mae'r Cyngor Gwirfoddol Sirol, CAVS, yn un o'r partneriaid strategol, ac mae yna gynrychiolwyr sector ar y Fforymau Dysgu. Roedd Fforwm Dysgu eisoes wedi'i sefydlu ar gyfer y sector gwirfoddol, ac apwyntiwyd y Swyddog Dysgu wedi'i neilltuo i weithio'n uniongyrchol gyda'r sector er mwyn sicrhau ymrwymiad llwyr. Er mwyn cwrdd â'r agenda cyfranogaeth ehangach, roedd hi'n bwysig gweithio gyda mudiadau gwirfoddol ar lawr gwlad oedd mewn cyswllt â'r grwpiau 'anoddach eu cyrraedd'.

Roedd ffocws y gwaith a wnaed gyda'r mudiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar adnabod y mathau o weithgareddau dysgu ac ymateb i'r rhain. I ddechrau, roedd rhai rhanddeiliaid sector gwirfoddol yn mynnu y dylid dapraru gweithgareddau o'r fath gan y sector ei hun (neu diwtoriaid yn gweithio gyda nhw) ond wnaeth hyn ddim digwydd yn ymarferol ac fe'u darparwyd gan yr un ystod o ddarparwyr hyfforddiant â'r rheiny ddarparodd cyrsiau rhwydweithiau eraill.

Gweithio mewn partneriaeth
Mae'r rhwydwaith wedi'i seilio ar fodel partneriaeth sy'n cynnwys deg mudiad amrywiol, oedd yn chwarae rhan wahanol iawn ym mywyd y gymuned. Roedd hi'n bwysig fod mudiadau partner yn mabwysiadu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y rhwydwaith, oedd hefyd yn rhoi cyfle i feithrin cydweithrediad rhwng darparwyr sy'n rhan o ystod eang o fentrau wedi'u cynllunio er mwyn ehangu mynediad i ddysgu. Ymhen amser, datblygodd strwythurau fyddai'n sylfaen ar gyfer cyfleoedd cydweithredu yn y dyfodol a teimlwyd y byddai gweithio mewn partneriaeth trwy'r rhwydwaith yn parhau cyhyd â bod yna arian i'w gynnal.[12]

Ymgymerodd y Grŵp Technegol a Gweithredol reolaeth strategol y rhwydwaith, a'r Rheolwr Prosiect oedd yn gyfrifol am y rheolaeth weithredol.

[12] Gwerthusiad o Rwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin, adroddiad terfynol NFER, Medi 2005

6.5 Casgliadau am rôl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro

Mae'r ymchwil a wnaed yn amlygu nifer o faterion pwysig am rôl bosibl y sector Gwirfoddol a Chymunedol mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro.

Yn gyntaf, mae'n glir bod angen gwneud mwy o waith i eglurhau mewn termau cyffredinol y cysyniad o 'Rwydwaith Ddysgu' gan nad oedd llawer o fudiadau ac unigolion gymerodd rhan yn yr ymchwil hwn yn gallu llunio atebion clir i gwestiynau allweddol oedd yn cynnwys y term 'Rhwydwaith Ddysgu'. Ni all y gwaith o gymryd rhan yn y rhwydwaith honno ddigwydd nes bod dealltwriaeth glir o'r term.

O'r rheiny yn y sector oedd yn teimlo'u bod nhw'n fwy abl i gyfrannu tuag at y cwestiynau holwyd am ddatblygu Rhwydwaith Ddysgu, roedd yna dystiolaeth o gefnogaeth a brwdfrydedd cyffredinol am hyn a gwerthusiad positif ar y cyfan o'r cyfraniad posibl y gallai'r sector ei wneud.

Nododd y cyfranogwyr dair rôl gydberthnasol yn benodol y gallai'r sector eu cyflawni wrth sefydlu Rhwydwaith Ddysgu effeithiol ar gyfer Sir Benfro.

- Gallai'r sector weithredu'n ddarparwr hyfforddi, gan gynnig darpariaeth arbenigol a chyflenwol er mwyn cyfoethogi'r hyn gaiff ei gynnig gan ddarparwyr eraill. Yn yr ystyr yma, roedd agosrwydd y sector i 'lawr gwlad' yn cael ei weld yn arbennig o werthfawr wrth ddarparu cyfleoedd dysgu hyblyg wedi'u harwain gan y defnyddiwr ac sydd yn ymatebol i anghenion y gymuned. Mae darpariaeth *niche* o gyfleoedd dysgu yn adlewyrchu'r wybodaeth arbenigol sydd wedi codi o fewn y sector wrth iddo dyfu drwy ymateb i'r anghenion hynny.

- Gwelwyd agosrwydd y sector i bryderon ac anghenion llawr gwlad, a statws wirfoddol personél allweddol o fewn y sector, yn rhywbeth sy'n gwneud y sector yn arbennig o effeithiol fel hyrwyddwr a dehonglwr o anghenion cymunedol ar gyfer darparwyr dysgu. Gwelwyd hefyd bod posibilrwydd iddo gynnig gwasanaeth cyfeirio ar gyfer ffynonellau o hyfforddiant arbenigol o fewn y sector, a gwasanaeth gwybodaeth mwy cyffredinol er mwyn galluogi aelodau'r gymuned i ganfod a chyrchu cyfleoedd dysgu drwyddynt draw, a bod yn hyrwyddwyr ar gyfer dysgu o fewn y gymuned.

- Teimlai rhai y gellid cydnabod a gwneud gwell defnydd o adnoddau'r sector, trwy ddarparu gwasanaethau cefnogi er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ar draws y sector. Yn wir, gellid hefyd defnyddio mynediad y sector i bryderon llawr gwlad ac i wybodaeth a phrofiad arbenigol, er mwyn gwella ansawdd a pherthnasedd rhaglenni hyfforddi ac addysgol gaiff eu darparu i bobl broffesiynol ac i eraill sy'n gweithio mewn meysydd sydd yn cyffwrdd â buddiannau grwpiau buddion arbennig, penodol (e.e. defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl).

Er mwyn i'r rolau uchod gyfrannu tuag at adeiladu rôl effeithiol ar gyfer y sector mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro, gwelwyd ei bod hi'n hanfodol fod y sector yn chwarae rhan gyflawn yn y broses barhaol o gynllunio strategol fyddai'n rhan mor annatod o ddatblygu a chynnal y Rhwydwaith. Rhan bwysig o'r broses o gyflawni'r lefel ddymunol o fewnbwn strategol yw ffocws cynyddol ar weithio mewn partneriaeth a gwella cyfathrebu o fewn y sector.

Fodd bynnag, os yw'r sector am chwarae ei rôl yn effeithiol yn yr ystyr yma, teimlwyd ei bod hi'n hanfodol iddo gael ei drin fel partner gwirioneddol a chydradd gan eraill a'i fod yn cyrraedd parch cydradd. Bydd adnabod, deall a pharchu'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng partneriaid yn allweddol er mwyn sicrhau sylfaen gadarn fydd yn gallu datblygu'n Rhwydwaith lwyddiannus ac effeithiol. Ar ben hynny, mae angen rhoi ystyriaeth i allu'r sector i ymgysylltu'n llawn â'r Rhwydwaith a sut y bydd yn cael ei gynrychioli a sut bydd eraill yn ymgynghori ag ef.

Yng nghyd-destun datblygu ymdriniaeth integredig a chynaliadwy ar gyfer hyfforddiant yn y sector, mae'n rhaid diogelu cyllid sy'n annog cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth a dull strategol sy'n cael ei arwain yn llai gan brosiect, gyda mwy o ffocws ar gynllunio hirdymor nac ar brosiectau tymor byr gaiff eu gyrru gan gyllid – cyllid sydd wedi'i gynllunio i annog a galluogi gweithio mewn partneriaeth a lleihau dyblygiad ymdrech.

7. Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi archwilio'r ddarpariaeth bresennol o gyfleoedd dysgu oedolion ac yn y gymuned gaiff eu darparu gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn Sir Benfro, datblygiadau arloesol mewn darparu a chynllunio, a dulliau ar gyfer adnabod a rhannu anghenion dysgwyr. Archwiliwyd dau fodel o Rwydwaith Ddysgu o rannau eraill o Gymru gyda ffocws arbennig ar y rôl oedd gan y sector Gwirfoddol i'w chwarae yn y ddau, a thrafodwyd ystyriaeth o rôl y sector mewn Rhwydwaith Ddysgu ar gyfer Sir Benfro.

7.1 Mapio'r ddarpariaeth bresennol

Mae'n amlwg fod ystod eang o gyrsiau oedolion ac yn y gymuned yn cael eu darparu'n llwyddiannus gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol, ac mae yna arwyddion o ragolygon ar gyfer twf yn y dyfodol, fel a drafodir yng nghasgliad adran 2.

Fel drafodwyd, mae llawer o'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu 'ar gais', heb unrhyw ariannu craidd. Awgrymir fod yn rhaid i ddatblygiad cynllun strategol sy'n cynnwys gweithio effeithiol mewn partneriaeth o fewn, a thu allan, i'r sector, gyflwyno'r ddadl am gyllid strategol addas, gyson yn ogystal â datblygu modelau ar gyfer cynaliadwyedd. Nododd ymchwil gan Estyn[13] fod dysgwyr yn gyffredinol yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i'w cyfranogiad mewn cyrsiau DOG a bod y sgiliau gaiff eu meithrin, megis hyder a hunan-barch yn eu helpu i fynd ymhellach ar y siwrnai ddysgu, ond nad yw cynnydd y dysgwyr hyn yn dueddol o gael ei olrhain yn dda, gyda thystiolaeth anecdotaidd yn unig o gynnydd. O ran hyn, mae ymchwil ddiweddar gan NIACE[14] ar fesur 'canlyniadau meddal' dysgu anffurfiol neu heb achrediad, efallai ei bod hi'n werth archwilio ffactorau megis twf mewn hunanhyder, gwell sgiliau cyfathrebu a dyheadau addysgol wrth ddadlau am fodel ariannu newydd sy'n helpu i ddarparu manteision strategol a chyflwyno'r ddadl nad dysgu ffurfiol, achrededig yw'r unig ffurf o ddysgu sydd werth ei ddarparu neu ei ddilyn.

7.2 Adnabod a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr

O ran adnabod anghenion dysgwyr ac ymateb iddyn nhw, dylid archwilio methodolegau addas ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth. Bydd datblygiad Porth Addysg Sir Benfro er mwyn rhoi 'ffenest siop' i'r sector, o fudd wrth hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i ddysgwyr presennol a dysgwyr posibl, ond mae angen iddo fod yn gysylltiedig â gweithgareddau cyd-drefnus a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r ymchwil hwn hefyd wedi adnabod, fodd bynnag, bod isadeiledd dechnegol a gweinyddol, ac hyd yn oed ariannu wedi'i anelu'n strategol er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth i fapio a chwrdd ag anghenion dysgwyr yn well yn amod angenrheidiol, ond nid digonol o gyflawni camau cyntaf Rhwydwaith Ddysgu effeithiol lle mae gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol ran gyfartal i'w chwarae. Yr hyn sydd hefyd ei angen yw cyd-dealltwriaeth a sgwrsio er mwyn ateb a harmoneiddio (ac nid llethu) gwahaniaethau diwylliannol rhwng partneriaid a'r cymunedau buddion maen nhw'n eu cynrychioli, er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth effeithiol sy'n parchu a phrisio'r amrywiol anghenion a chryfderau sydd i'w cael o fewn a thu allan i'r sector.

Mae galw am bynciau ychwanegol yn adlewyrchu'n bennaf anghenion penodol y sector, gyda graddau helaeth o anghenion arbenigol megis hyfforddiant mewn marchnata celfyddydau, a thrafnidiaeth gymunedol.

[13] Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion: Arolwg o arfer gorau, Estyn, 21ain Mehefin 2004
[14] Catching Confidence: the nature and role of confidence – ways of developing and recording changes in the learning context, NIACE, 2005

7.3 Modelau darparu

Mae'r ymchwil hwn wedi archwilio nifer o fodelau dapraru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffyrdd y gall dysgwyr elwa o drefniadau llai ffurfiol, a'r potensial i'r rhain asio gyda'r hyn gaiff ei gynnig gan y prif ffrwd, gydag ystyriaeth o ddulliau cynaliadwy o ddarparu. Mae potensial technoleg, yn enwedig dysgu ar-lein, i ddod dros materion megis hygyrchedd daearyddol a lleihau costau yn sylweddol, ond mae'n angenrheidiol bod yn ymwybodol mai dim ond un ffurf o ddysgu yw hwn, a bod angen cydbwyso costau datblygu sgiliau hyfforddwyr a dysgwyr posibl, a datblygu isadeiledd technegol, yn erbyn y buddiannau a'r arbedion posibl. Mae hefyd yn bwysig cadw cyd-destun cymdeithasol dysgu mewn ffocws, a'r cyfraniad mae rhyngweithio cymdeithasol yn ei wneud i gyfoeth a budd cyffredinol y profiad dysgu.

Beth bynnag fo'r technegau darparu penodol, mae mabwysiadu dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr yn helpu i roi teimlad o bŵer a hyder i ddysgwyr oedd yn flaenorol heb eu grymuso, ac yn cynyddu ysgogiad. Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi darparwyr i dynnu ar y profiad arbenigol mewn sectorau arbennig er mwyn gosod y dysgwr, gyda'i holl anghenion dysgu, gan gynnwys y cyd-destun cymdeithasol a rhyngbersonol yr hwylusir y broses ddysgu ynddi, yng nghanol y darlun. Os oes gan y sector Gwirfoddol a Chymunedol un cryfder arbennig, yna'r profiad yma o weld y dysgwr mewn cyd-destun cyfannol yn eu milltir sgwâr yw hwnnw, a dyma'r persbectif sydd rhaid ei gadw a'i ddatblygu os yw'r sector am wneud y gorau o'r cyfleoedd all ddod o gymryd rhan mewn rhaglen fwriadol o ddatblygu mewn partneriaeth.

7.4 Cyfrannu tuag at Rwydwaith Ddysgu

Fel awgrymwyd yn flaenorol, bydd adeiladu Rhwydwaith Ddysgu effeithiol yn gofyn am ymroddiad i barhau i ddatblygu cyd-barch a chyd-ddealltwriaeth, a chroesawu gweledigaeth strategol gyffredin sy'n rhoi anghenion y dysgwr yn y canol. Mae angen dealltwriaeth glir o'r cysyniad o Rwydwaith Ddysgu er mwyn i'r sector 'brynu'r' weledigaeth, a bod yn glir am y manteision a'r agendâu y gellir gymryd mantais ohonynt, ac sydd yn mynd uwchlaw buddion sector penodol. Yn y cyd-destun hwn, mae dealltwriaeth a gwerthfawrogiad, o amrywiaeth y sector yn hanfodol, gan mai'r gwahaniaethau rhwng mudiadau a'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli a ble y'u lleolir nhw, sy'n gwneud gweithio mewn partneriaeth tuag at strategaeth gyffredin yn dasg anodd ond hefyd yn un sydd â'r potensial i fod mor effeithiol.

Mae'n rhaid felly fod yna ddyluniad clir o werthoedd a diwylliant cyffredinol y sector yn ei gyfanrwydd, amgyffrediad o *undod-mewn-amrywiaeth* addas, ac ymdrech i fapio rôl glir ar gyfer y sector i gynnig darpariaeth unigryw ond gyflenwol ac arbenigol o fewn dysgu oedolion ac yn y gymuned yn Sir Benfro.

Dengys ymchwil fod *"yn rhaid i ariannu annog partneriaeth yn hytrach na chystadleuaeth ymysg sefydliadau, a bod yn seiliedig ar fapio cyson, strwythuredig o holl anghenion rhanddeiliaid a chynllunio strategol"*.[15] Fel awgrymwyd uchod, os yw datblygiad Rhwydwaith Ddysgu i fod arwain at ddarparu cyfleoedd cynaliadwy yn Sir Benfro, rhaid dadlau dros fodelau ariannu addas fydd yn rhoi'r sylfaen angenrheidiol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau integredig gaiff eu harwain gan anghenion.

[15] *Best practice approaches to achieving parity of esteem in education and training*, Newidiem, Chwefror 2003

Gall **Adnabod a thynnu ar gryfderau a phrofiadau arbennig** darparwyr unigol ddim ond gwella defnydd effeithlon o adnoddau tra'n codi safonau ansawdd. Mae llwyddiant y rhwydwaith RISE, er enghraifft, wedi bod yn rhannol oherwydd y gallu i adnabod ac adeiladu ar y cryfderau oedd gan y partneriaid i ddod gyda nhw i'r rhwydwaith. Gwnaed y mwyaf o'r adnabyddiaeth fod gan y sector gwirfoddol, er enghraifft, lawer i'w gynnig o ran gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd mewn ymgysylltu â grwpiau 'anoddach i'w cyrraedd' a'i fod mewn cyswllt â dysgwyr 'ar lawr gwlad' yn RISE drwy eu cysylltiad nhw â'r cynllun Hyrwyddo Dysgu ac mae'n enghraifft o'r buddiannau y gall y sector ddod â nhw i ddatblygiad model rhwydwaith.

Mae targedau osodwyd gan y Llywodraeth ar gyfer dysgu gydol-oes ac a gyflwynwyd yng nghyd-destun strategaeth 'Y Wlad Sy'n Dysgu'[16], yn cydnabod y bydd ehangu cyfranogiad dysgwyr sy'n oedolion, yn enwedig rheiny mewn dysgu oedolion yn y gymuned, yn helpu tuag at gyrraedd y targedau hynny nodwyd yn y strategaeth fel yr angen i ddatblygu polisi a rhaglen 'i ymgymryd â hi ar sail partneriaeth gyda phawb all gyfrannu tuag at lwyddiant gan ddefnyddio ymgynghoriad effeithiol; y biwrocratiaeth lleiaf posibl; ac annog ymroddiad gwirioneddol i waith ar draws ffiniau cyfundrefnol gyda phartneriaid yn gwneud y mwyaf o gryfderau ei gilydd'.

Mae **ansawdd** darpariaeth wedi'u grybwyll mewn nifer o wahanol rannau yn yr adroddiad hwn ac mae gofynion sefydliadau megis Estyn o ran darpariaeth oedolion ac yn y gymuned yn golygu y bydd rhaid i bob darparwr sector sy'n gweithio yn y maes hwn gyrraedd y safonau hyn. Ar ben hyn, disgwylir i ELWa fuddsoddi £1.75 biliwn mewn dysgu a sgiliau yng Nghymru rhwng 2005-2008[17]. Mae gwella ansawdd darpariaeth ddysgu yn allweddol, ac mae system Adolygu Perfformiad Darparwr (PPR) wedi'i datblygu gan ELWa er mwyn adeiladu arolwg cynhwysfawr o ansawdd a pherfformiad pob darparwr. Mae PPR yn cael ei weithredu er mwyn gweithredu pwerau (Deddf Dysgu a Medrau 2000) i asesu ansawdd y ddarpariaeth gaiff ei hariannu gan ELWa, a chymryd barn am ansawdd i ystyriaeth wrth benderfynu pa ddarparwyr y dylid parhau i'w hariannu.

Mae llawer o brofiad o weithio o fewn fframwaith ansawdd megis Estyn ar draws darparwyr eraill, e.e. Sir Benfro Yn Dysgu a Choleg Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'r sector Gwirfoddol a Chymunedol yn llai cyfarwydd â'r fframwaith archwilio, er nad yw hynny'n dweud nad ydyn nhw eisoes yn cwrdd â'r safonau ansawdd. Er fod nifer fechan o staff o fewn y sector wedi derbyn hyfforddiant ansawdd perthnasol, mae angen ehangu hyn a bydd rhannu gwybodaeth a sgiliau yn allweddol er mwyn sicrhau fod pob darparwr o fewn y sector Gwirfoddol a Chymunedol yn gallu gweithio o fewn fframwaith Estyn.

[16] Y Wlad Sy'n Dysgu: Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg a dysgu gydol oes hyd at 2010 yng Nghymru, Awst 2001
[17] Gwefan ELWa, www.elwa.org.uk

8. Argymhellion

Dylid ystyried y prif argymhellion yn yr adroddiad hwn yng nghyd-destun y casgliadau cyffredinol a fanylir uchod, ac maent yn adlewyrchu'r posibiliadau i'r sector Gwirfoddol a Chymunedol chwarae rôl bositif a gweithgar i helpu datblygu Rhwydwaith Ddysgu effeithiol ar gyfer oedolion ac yn y gymuned yn Sir Benfro.

- Dylid gwneud ymchwil pellach er mwyn mapio'n llawn darpariaeth bresennol ar draws y sector. Dibynnodd yr ymchwil presennol i sefydlu data llinell isaf ar ddarpariaeth yn bennaf ar atebion i holiaduron, sydd yn mynd i roi ymateb rhannol bob tro. Mae'n debyg y bydd dulliau mwy llafurus, megis ymweliadau personol, yn angenrheidiol er mwyn ymgyrraedd yn llawn â mudiadau sy'n darparu hyfforddiant ar hyn o bryd, cyn y gellir cyrraedd darlun llawnach a mwy awdurdodol o lefelau presennol y ddarpariaeth

- Dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y gellid mapio gwybodaeth gasglwyd ar ddarpariaeth ac anghenion dysgwyr gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) fel gaiff ei defnyddio gan yr Awdurdod Lleol. Byddai hyn yn galluogi adnabyddiaeth well o faterion yn ymwneud â hygyrchedd daearyddol, ffactorau demograffig, adnoddau lleol, ac anghenion lleol. Gellid rhoi gwybodaeth a gasglwyd o fewn y sector Gwirfoddol a Chymunedol i mewn i gronfa ddata ganolog a allai yn ei dro fwydo i mewn i systemau gwybodaeth ehangach sy'n cyrraedd dysgwyr presennol a phosibl, megis Porth Addysg Sir Benfro.

- Gan gofio fod System Wybodaeth ddim ond mor ddibynadwy â'r wybodaeth gaiff ei rhoi ynddi, argymhellir bod gwaith pellach yn cael ei wneud gyda mudiadau i'w hannog i wella'r modd maen nhw'n cofnodi gwybodaeth ynghylch anghenion dysgwyr – boed wedi'u diwallu ai peidio. Efallai bydd angen hyfforddiant i annog mudiadau i brisio gwybodaeth o'r fath a datblygu hyder o ran ei gyrchu a'i ddehongli.

- Dylid rhoi cefnogaeth i'r mudiadau hynny sy'n ystyried datblygu dysgu achrededig yn y dyfodol, ac i'r rheiny sy'n dymuno edrych ar wella darpariaeth yn gyffredinol.

- Mae nifer fawr o staff yn ymwneud â darparu hyfforddiant, a dylid gwneud ymdrech i adeiladu ar eu harbenigedd, a chanfod beth allai fod ei angen yn nhermau cefnogaeth.

- Yng nghyd-destun gweithio i fframwaith ansawdd Estyn ar gyfer darpariaeth dysgu oedolion ac yn y gymuned, argymhellir y dylid addasu'r *Good practice guide for Voluntary Organisations and the Common Inspection Framework*[18] ar gyfer ei ddefnyddio yn Sir Benfro. Er fod yr arweiniad hwn wedi'i seilio ar yr *Adult Learning Inspectorate* (ALI) yn Lloegr, mae egwyddorion cyffredinol y fframwaith yn debyg i Estyn a gellid eu haddasu'n rhwydd er mwyn rhoi cyflwyniad gwych i fudiadau Gwirfoddol a Chymunedol sy'n newydd i'r dull yma, fel cam cyntaf tuag at weithio o fewn fframwaith Estyn.

- Caiff llawer o hyfforddiant ei ddarparu ar hyn o bryd yn adeilad y mudiad sy'n cynnig yr hyfforddiant. Dylid archwilio potensial elwa o hyn ac hyrwyddo defnydd potensial y cyfleusterau hyfforddiant i ddarparwyr neu fudiadau eraill fel ffordd o gynhyrchu ffynhonnell incwm ychwanegol i gefnogi gweithgareddau.

[18] *Good practice guide for Voluntary Organisations and the Common Inspection Framework, York and North Yorkshire Voluntary Sector Learning and Skills Network,* Mawrth 2003

- Er mwyn sicrhau gwerthusiad effeithiol o ganlyniadau dysgu 'meddal', awgrymir bod gwaith yn cael ei wneud gydag arfau megis RARPA/*Catching Confidence*[19] a ddatblygwyd yn ddiweddar gan NIACE.

- Parhau i archwilio modelau hunangynhaliol gaiff eu harwain gan y dysgwr megis model y Clwb Dysgu, a chyfleoedd cydweithrediadol er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau a sgiliau/arbenigedd.

- Gwneud awdit sgiliau a diddordeb ar draws darparwyr wrth ddatblygu gweithgareddau ar-lein gan ddefnyddio adnoddau megis Porth Addysg Sir Benfro.

Adnabod a phrisio cyfraniad y sector Gwirfoddol a Chymunedol
Dengys yr ymchwil hwn yn glir fod gan y sector rôl bwysig, ac unigryw mewn sawl ffordd, i'w chwarae yn narpariaeth cyfleoedd dysgu oedolion ac yn y gymuned yn Sir Benfro. Wrth baratoi am ddyfodiad Rhwydwaith Ddysgu, bydd hi'n bwysig adnabod meysydd o arbenigedd penodol fydd yn galluogi'r sector i chwarae rôl bositif yn natblygiad y rhwydwaith hwn. Roedd y syniad a awgrymwyd gan bartneriaid mewn ymchwil DOG yn Sir Benfro[20] yn awgrymu datblygu 'canolfannau o arbenigedd penodol' cysylltiedig ag arbenigeddau pwnc penodol, grwpiau rhwydwaith ar-lein, a rhannu polisïau megis gweithio gydag oedolion bregus. Mae hyn yn cydnabod y cyfraniadau penodol sydd gan bartneriaid i'w gwneud i'r rhwydwaith, a gellir rhannu gwaith y canolfannau arbenigol hyn ar draws y rhwydwaith er mwyn sicrhau ymdriniaeth effeithiol a chyson.

Yn ogystal ag adnabod arbenigeddau penodol o fewn y sector, mae'n rhaid cael dyluniad clir a chyfathrebu *gwerthoedd a diwylliant cyffredinol* y sector cyfan, gan ddiffinio cyfraniad neilltuol o fewn dysgu oedolion ac yn y gymuned yn Sir Benfro.

Awgryma'r ymchwil hwn y bydd cydnabod fod gan y sector rôl bwysig i'w chwarae yn natblygiad Rhwydwaith Ddysgu Sir Benfro, a diffinio'r rôl yma yn golygu gwaith i godi ymwybyddiaeth am y cysyniad o Rwydwaith Ddysgu, ac fe argymhellir bod angen rhaglen o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu mewn trafod pellach er mwyn sicrhau 'pryniant' digonol i'r cysyniad.

Ariannu a Chynaliadwyedd
Yng nghyd-destun datblygu dull integredig a chynaliadwy ar gyfer hyfforddiant yn y sector, mae'n rhaid diogelu ariannu sy'n annog cydweithio dros gystadleuaeth, a dull strategol sy'n cael ei arwain yn llai gan brosiect a gyda mwy o ffocws ar gynllunio hirdymor dros brosiectau tymor byr wedi'u gyrru gan gyllid. Dylid defnyddio ariannu i annog a galluogi gweithio mewn partneriaeth a lleihau dyblygiad ymdrech. Yn y pen draw, mae angen i ariannu ddilyn y dysgwr, a golyga hyn y dylai gael ei gynllunio a'i ddosbarthu mewn ffordd sy'n gweld y dysgwr yn eu cyd-destun cymunedol, gan ymateb i rwystrau mynediad a chwrdd â dyheadau dysgwyr er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb cyfle yn realiti mewn dysgu oedolion ac yn y gymuned.

Mae materion eisoes wedi'u trafod ynghylch ail-feddwl patrymau ariannu er mwyn annog gweithio mewn partneriaeth, ac mae angen dull gyfannol, wedi'i arwain gan anghenion y dysgwr, i gynllunio strategol ac ariannu. Os yw'r sector am elwa o hyn a pharhau i fod yn geffyl blaen, mae angen iddo ddiffinio a marchnata'n weithgar ei gyfraniad unigryw i ddarparu cyfleoedd dysgu. Wrth ddathlu a phrisio'r amrywiaeth sy'n rhan o'i gryfder unigryw, mae dal angen iddo ddiffinio a chyfathrebu athroniaeth nodweddiadol, ac ystyried ac hyrwyddo'r amryw esiamplau o arfer da y mae wedi'u datblygu ac a all gyfrannu tuag at gyfoethogi profiad dysgu oedolion ac yn y gymuned ar gyfer pobl Sir Benfro.

---

[19] *Catching Confidence: the nature and role of confidence – ways of developing and recording changes in the learning context, NIACE,* 2005
[20] *The Learning Journey: a collaborative approach to Adult and Community based learning in Pembrokeshire,* Allman, Mawrth 2006

Llyfryddiaeth/Cyfeiriadau

A Community Plan for Pembrokeshire 2003/2008, Pembrokeshire Community Planning and Leadership Partnership, Hydref 2003

Adult Learning Survey 2005, Narrative report to accompany quantitative results, Lorraine Allman, Mawrth 2006

Best practice approaches to achieving Parity of Esteem in Education and Training, Newidiem, Chwefror 2003

Building Learning Communities in Wales: Next Steps for RISE, 5 Counties' Partnership for Learning at Work and in the Community, 21 Hydref 2005

Catching Confidence: the nature and role of confidence – ways of developing and recording changes in the learning context, NIACE, 2005

Evaluation of the Carmarthenshire Learning Network, Gareth Jones, Robat Powell, Robert Smith, National Foundation for Educational Research, Medi 2005

Good Practice Guide for Voluntary Organisations and the Common Inspection Framework, York and North Yorkshire Voluntary Sector Learning and Skills Network, Mawrth 2003

Lifelong Learning in Pembrokeshire for over 50s, Age Concern Sir Benfro, Mawrth 2005

Almanac Sector Gwirfoddol Sir Benfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, 2003

Regional Statement of Needs and Priorities to inform planning for 2006-07, ELWa De Orllewin Cymru, Awst 2005

Y Wlad sy'n Dysgu: Rhaglen addysg a dysgu gydol-oes gynhwysfawr hyd at 2001 yng Nghymru, Jane Davidson AC, Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awst 2001

The Learning Journey: A collaborative approach to Adult and Community based learning in Pembrokeshire, Lorraine Allman, Mawrth 2006

The National Planning Framework and Funding System, ELWa, www.elwa.org.uk

Voluntary and Community Sector Infrastructure Consultation Document, Home Office Active Communities Unit, Medi 2003

Sgiliau Sector Gwirfoddol Cymru, WCVA, 2005

Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion: Arolwg o arfer gorau, Estyn, Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, 21ain Mehefin 2004

Rhestr Atodiadau

Rhif Atodiad	Disgrifiad
1	Canlyniadau disgwyliedig o'r ymchwil
2	Holiadur llinell isaf (gwag)
3	Data o holiaduron llinell isaf wedi'u llenwi
4	Strwythur *pro-forma* ar gyfer cyfweliadau
5	Cofnod siart fflip o sesiynau grŵp ffocws TAG
6	Data cysylltiedig â darpariaeth cyrsiau a gynigir gan fudiadau gymerodd rhan
7	Atebion i'r holiadur llinell isaf ar yr ystod o gyrsiau a gyrchir y tu allan i Sir Benfro
8	*Learning for Living*
9	Clwb Dysgu Neuadd Gymunedol St John's
10	Porth Addysg Sir Benfro
11	Rhwydwaith Ddysgu RISE
12	Rhwydwaith Ddysgu Sir Gaerfyrddin